

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

11/2023

DYDDIAD CYHOEDDI:

08/02/2023

Gwerthusiad o'r Gwasanaeth Di-waith: adroddiad terfynol

Gwerthusiad o'r Gwasanaeth Di-waith: Adroddiad Terfynol

Awdur(on): Lucy Loveless, David Scott, Oli Taylor, Izabela Jamrozik, ac Emma Lovatt (ICF Consulting Services Ltd.)

Adroddiad Ymchwil Llawn: ICF Consulting Services Ltd (2023). *Gwerthusiad o'r Gwasanaeth Di-waith*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 11/2023
Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-y-gwasanaeth-di-waith-ail-werthuso>

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Laura Entwistle

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn:

E-bost: Ymchwil.lechydAGwasanaethauCymdeithasol@llyw.cy

Tabl cynnwys

Geirfa	ii
1. Cyflwyniad.....	1
2. Methodoleg	4
3. Recriwtio Cyfranogwyr	10
4. Gweithredu'r Gwasanaeth Di-waith	17
5. Cyflawni deilliannau'r prosiect	36
6. Casgliadau ac argymhellion	46
Atodiad A	57
Nodweddion Cyfranogwyr:.....	57

Rhestr tablau

Tabl 2.1: Trosolwg o'r cyfranogwyr a gafodd eu cyfweld yn ôl Lotiau	6
Tabl 3.1: Niferoedd recriwtio yn ôl Ardal	10
Tabl 3.2: Cyfran y categorïau cyfranogwyr ar gyfer pob ardal	11
Tabl 3.3: Cyfran yr ymadawyr cynnar ym mhob contract.....	16
Tabl 5.1: Deilliannau a gofnodwyd yn seiliedig ar ba bryd y gwnaeth cyfranogwyr ddechrau a gorffen y rhaglen.	37
Tabl 5.2 Deilliannau prosiect y grŵp oedran 16–24	38
Tabl 5.3 Deilliannau prosiect y grŵp 25 oed a hŷn.....	38
Tabl 6.1: Effaith COVID-19 ar ddeilliannau a gyflawnwyd.....	52

Rhestr ffigurau

Ffigur 3.1: Nifer y cyfranogwyr a gofrestrodd dros gyfnod – prif ystadegau	14
--	----

Geirfa

Acronym/ Gair allweddol

FfCChC

Cerdyn CSCS

CV

ESF

JCP

MI

NEET

OoWS

WEFO

Diffiniad

Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru

Cerdyn y Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu

Curriculum Vitae

Cronfa Gymdeithasol Ewrop

Canolfan Byd Gwaith

Gwybodaeth fonitro, a adroddir ar sail cofnodion o weithgareddau sy'n cael eu cynnal yn y rhaglen. Mae'n broses o gasglu gwybodaeth yn rheolaidd ar bob agwedd ar y prosiect.

Pobl nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant

Gwasanaeth Di-waith

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

1. Cyflwyniad

Y gwerthusiad

1.1 Ym mis Mawrth 2022, comisiynwyd ICF gan Lywodraeth Cymru i ymgymryd ag ail werthusiad o'r Gwasanaeth Di-waith, yn dilyn gwerthusiad cynharach a gomisiynwyd yn 2018 ac a gwblhawyd yn 2020¹. Nod yr ail werthusiad hwn o'r Gwasanaeth Di-waith yw archwilio'r effaith ar gyfranogwyr ac ystyried yr effaith y mae coronafeirws (COVID-19) wedi'i chael ar y gwasanaeth, cyfranogwyr a deilliannau.

1.2 Mae pedwar amcan allweddol i'r gwerthusiad:

- Diweddarau canfyddiadau'r gwerthusiad cyntaf, gan ddarparu asesiad sy'n egluro perfformiad presennol (yn erbyn hynny a gofnodwyd ar ddechrau 2020) a'r modd y mae COVID-19 wedi effeithio ar gyflawni targedau a dangosyddion Themâu Trawsbynciol.
- Archwilio effaith y pandemig COVID-19 ar y Gwasanaeth Di-waith, gan gynnwys profiadau ar gyfer cyfranogwyr (y rheiny sydd eisoes wedi'u cofrestru a chyfranogwyr newydd) a'r rheiny sy'n darparu'r gwasanaeth – yn enwedig gorfod symud at ymgysylltu'n ddigidol/o bell.
- Archwilio'r graddau y bodlonwyd yr argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad blaenorol, gan roi ystyriaeth i'r cyd-destun darparu ehangach yn lleol a chenedlaethol; a
- Nodi unrhyw ddysgu pellach ac arfer gorau i Lywodraeth Cymru a phartneriaid ar gyfer rhaglenni'r dyfodol.

Y Gwasanaeth Di-waith

1.3 Mae'r Gwasanaeth Di-waith (OoWS) yn rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru, Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), a Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau, sy'n pwysu'n drwm ar brofiad ac egwyddorion sylfaenol y Prosiect Mentora Cymheiriaid Camddefnyddio Sylweddau blaenorol, a'r argymhellion a amlinellwyd yn ei werthusiad². Prif nodwedd y gwasanaeth yw cyflogi mentoriaid cymheiriaid i ddarparu cymorth cyflogaeth cyfannol i ddau grŵp o bobl allweddol nad ydynt mewn gwaith: y rhai 16–24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na

¹ [Gwerthusiad o'r Gwasanaeth Di-waith: Adroddiad terfynol](#)

² [Maguire, M., Holloway, K. a Bennett, T.H. \(2014\) Gwerthusiad o Fentora Cymheiriaid Cymru Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Caerdydd: Llywodraeth Cymru](#)

hyfforddiant, a'r rheiny sy'n 25 oed a hŷn sy'n ddi-waith yn yr hirdymor neu'n economaidd anweithgar, ac sydd â materion camddefnyddio sylweddau a/neu faterion iechyd meddwl, ac anhwylderau deuol (a ddiffinnir fel materion camddefnyddio sylweddau a materion iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd).

- 1.4 Dechreuwyd y Gwasanaeth Di-waith yn Awst 2016 ac, ar adeg gwneud y gwaith maes ar gyfer yr adroddiad hwn, roedd wedi'i ariannu hyd at ddiwedd mis Awst 2022.
- 1.5 Nid yw strwythur y gwasanaeth wedi newid yn sylweddol ers y gwerthusiad cyntaf o'r Gwasanaeth Di-waith. Darperir y gwasanaeth ar draws saith 'Lot' o fewn ardaloedd rhaglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn Nwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, y mae bob un ohonynt yn cwmpasu ardal ddaearyddol benodol sy'n gysylltiedig â'r ardaloedd Byrddau Iechyd Lleol. Mae dau gonsortium o ddarparwyr yn gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth:
- **Cyfle Cymru**, partneriaeth o ddarparwyr (Barod, Adferiad Recovery, Kaleidoscope), sy'n rheoli'r ddarpariaeth mewn pump o Lotiau (Gogledd Cymru, Gwent, Dyfed, Bae'r Gorllewin a Phowys); a
 - **Platform** (Gofal yn flaenorol), mewn partneriaeth â **NewLink Wales** yn rheoli'r ddarpariaeth mewn dwy Lot (Caerdydd a'r Fro, a Chwm Taf)³.
- 1.6 Yn flaenorol, roedd Cyfle Cymru yn bartneriaeth o ddarparwyr yn cynnwys CAIS, Hafal ac WCADA, tan iddynt uno ag Adferiad Recovery.
- 1.7 Prif nodau'r Gwasanaeth Di-waith yn cynnwys lleihau nifer y rhai 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, a lleihau nifer y bobl 25 oed a hŷn sy'n ddi-waith yn yr hirdymor neu'n economaidd anweithgar. Drwy'r rhaglen, y nod yw i ddefnyddwyr gwasanaeth 16-24 oed gael cymwysterau, addysg neu hyfforddiant, a mynd i mewn i gyflogaeth ar ôl hynny, a'r ffocws ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth 25 oed a hŷn yw ennill cymwysterau, mynd ati i chwilio am waith, cwblhau profiad gwaith neu gyfleoedd gwirfoddoli a mynd i mewn i gyflogaeth. Cafodd targedau rhifyddol penodol yn gysylltiedig â'r deilliannau hyn eu gosod ar gyfer y grwpiau oed 16-24 a 25+ yn Nwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Fel y nodwyd uchod, nod y gwerthusiad yw asesu perfformiad ac effaith ganfyddedig y Gwasanaeth Di-waith yn erbyn y nodau cyflawni hyn.

³ Mae rhan o'r gwasanaeth yng Nghwm Taf (y ddarpariaeth i'r rhai 16–24 yn unig) wedi'i his-gontractio i Barod ar ôl hynny.

- 1.8 Nod y Gwasanaeth Di-waith hefyd yw gwella iechyd a lles cyfranogwyr (lle bo modd, cefnogi defnyddwyr y gwasanaeth i gynnal ymadferiad ac ymadfer rhag camddefnyddio sylweddau), gwella mynediad cyfranogwyr at gymorth a galluogi cyfranogwyr i oresgyn rhwystrau cymhleth rhag cyflawni (ail)integreiddio cymdeithasol.
- 1.9 Ers dechrau'r pandemig COVID-19 ym mis Mawrth 2020, mae strwythur y ddarpariaeth gwasanaeth wedi parhau'n gymharol ddigyfnewid, er bod rhai addasiadau pwysig wedi'u rhoi ar waith, ac mae darparwyr y gwasanaeth wedi wynebu heriau. Mae'r Gwasanaeth Di-waith wedi'i ddarparu o bell/ar-lein yn bennaf ers dechrau'r pandemig, gan olygu bod cyswllt rhwng mentoriaid cymheiriaid a chyfranogwyr yn cael ei gynnal i raddau helaeth dros y ffôn, drwy negeseuon testun neu drwy lwyfannau ar-lein. Mae hyfforddiant wedi'i ddarparu drwy lwyfannau ar-lein hefyd, sy'n golygu bod cyfranogwyr wedi gorfod defnyddio offer TG i dderbyn cymorth y gwasanaeth.

Strwythur yr adroddiad

- 1.10 Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:
- Mae Adran 2 yn nodi'r fethodoleg ar gyfer y gwerthusiad
 - Mae Adran 3 yn defnyddio tystiolaeth ansoddol a gwybodaeth fonitro i edrych ar recriwtio cyfranogwyr, nodweddion cyfranogwyr, llwybrau atgyfeirio a'r prif ffactorau sy'n effeithio ar recriwtio, ymadael yn gynnar a chynnal ymgysylltiad.
 - Mae Adran 4 yn cyflwyno tystiolaeth ansoddol o'r cynnydd a wnaed gan ddarparwyr wrth gyflwyno'r Gwasanaeth Di-waith, gyda ffocws penodol ar yr heriau yn sgil y pandemig COVID-19 a'r ffyrdd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r rhain.
 - Mae Adran 5 yn edrych ar y cynnydd y mae'r Gwasanaeth Di-waith wedi'i wneud tuag at gyflawni deilliannau sy'n seiliedig ar dargedau, ac o safbwynt cyfranogwyr, sut mae deilliannau meddal wedi'u cyflawni.
 - Mae Adran 6 yn amlinellu'r casgliadau a'r argymhellion.

2. Methodoleg

2.1 Defnyddiwyd cymysgedd o wahanol ddulliau i gynnal y gwerthusiad, gan gyfuno data ansoddol o gyfweiliadau astudiaeth achos ym mhob un o'r saith o Lotiau gyda gwybodaeth fonitro feintiol a gasglwyd gan ddarparwyr gwasanaeth.

Cychwyn a chwmpasu

2.2 Roedd y cam cychwyn a chwmpasu yn cynnwys adolygiad o bolisi a statws y rhaglen er mwyn diffinio prif nodau'r gwerthusiad ac i amlinellu'r materion a'r ystyriaethau allweddol. Ar sail hyn, fe wnaeth yr adroddiad cychwyn a chwmpasu amlinellu dull methodolegol manwl, gyda fframwaith samplu ar gyfer cyfweiliadau wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â phedwar nod y gwerthusiad fel yr amlinellwyd ym Mharagraff 1.2.

Astudiaethau achos ardal

2.3 Cynhaliwyd astudiaethau achos ardal i archwilio gweithrediad, perfformiad a deilliannau'r gwasanaeth yn saith ardal y Lotiau: Gogledd Cymru, Gwent, Dyfed, Bae'r Gorllewin, Cwm Taf, Powys, a Chaerdydd a'r Fro. Cwblhawyd cyfweiliadau rhwng misoedd Mai ac Awst 2022. Cafodd ystod o randdeiliaid eu cyfweld gan ddefnyddio canllawiau testun lled-strwythurol wedi'u teilwra yn ôl math o ymatebydd a phrofiad gyda'r gwasanaeth, gan sicrhau bod cyfweiliadau'n gallu tynnu'r wybodaeth fwyaf perthnasol gan bob cyfranogwr. Cynhaliwyd cyfweiliadau naill ai dros y ffôn (dyna oedd yn nodweddiadol ar gyfer cyfranogwyr y Gwasanaeth Di-waith) neu ar-lein gan ddefnyddio Microsoft Teams.

2.4 Gydag arweinwyr y Lotiau (y darparwyd eu manylion gan Lywodraeth Cymru) yr ymgynghorwyd gyntaf er mwyn cael gwybodaeth gyswllt darpar gyfweleion o bedwar grŵp rhanddeiliaid allweddol: mentoriaid cymheiriaid; arbenigwyr cyflogaeth; partneriaid atgyfeirio; a chyflogwyr. Wedyn, gwahoddwyd y cysylltiadau hyn drwy'r e-bost i gymryd rhan mewn cyfweiliad.

2.5 Dewiswyd cyfranogwyr gan arweinwyr y Lotiau a mentoriaid cymheiriaid y gellid cysylltu â nhw, a darparont fanylion i ICF. Deallwn fod hyn wedi'i seilio ar eu canfyddiad o barodrwydd cyfranogwyr i gymryd rhan. Cysylltwyd â'r rhain drwy'r e-bost yn y lle cyntaf (neu drwy neges destun, os nad oedd cyfeiriad e-bost wedi'i roi), a darparwyd gwybodaeth am y gwerthusiad iddynt. Roedd mwyafrif helaeth y cyfranogwyr a ddewiswyd gan arweinwyr y Lotiau a mentoriaid cymheiriaid yn y

grŵp 25 oed a hŷn. Er mwyn cael manylion cyfranogwyr ar gyfer y grŵp 16-24 oed, defnyddiom Wybodaeth Fonitro a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Defnyddiwyd hon gennym i dargedu'r rhai 16-24 oed.

Cytundeb i gymryd rhan

- 2.6 Anfonwyd hysbysiadau preifatrwydd at yr holl gyfweleion yr oedd eu cyfeiriadau e-bost ar gael. Roedd y rhain yn amlinellu nodau'r gwerthusiad a diben y cyfweiliad, ochr yn ochr â datganiad clir yn ymwneud â chasglu data personol, cyfrinachedd, anhysbysrwydd, a hawl y cyfranogwr i dynnu 'nôl o'r ymchwil. Gofynnwyd i gyfranogwyr p'un a oeddent wedi darllen yr hysbysiad preifatrwydd cyn i'r cyfweiliadau gychwyn, ac ailadroddwyd pwyntiau pwysig er mwyn cadarnhau'n benodol eu cytundeb i gymryd rhan.
- 2.7 Ar gyfer cyfranogwyr y cysylltwyd â nhw dros y ffôn, darllenwyd pwyntiau allweddol yr hysbysiad preifatrwydd iddynt ar ddechrau'r cyfweiliad, ac yna anfonwyd dogfen yr hysbysiad preifatrwydd atynt drwy'r post i'w cyfeiriad ar ôl cwblhau'r cyfweiliad, er mwyn ailadrodd hawliau'r cyfweilai, cyfrinachedd, anhysbysrwydd a'r defnydd o ddata personol.

Sampl

- 2.8 Mae Tabl 2.1 isod yn dangos nifer a phroffil y rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld.

Tabl 2.1: Trosolwg o'r cyfranogwyr a gafodd eu cyfweld yn ôl Lotiau

Ardal/Lot	Arweinydd Lotiau	Arbenigwyr cyflogaeth, cydlynwyr, neu Fentoriaid cymheiriaid â ffocws ar gyflogwyr	Mentor cymheiriaid	Partneriaid darparu/atgyfeirwyr	Cyflogwyr	Cyfranogwyr
Gogledd Cymru	1	1	3	3	1	7
Gwent	1	1	3			3 (3 16-24 ⁴)
Dyfed	3	1	4	1		8 (1 16-24)
Bae'r Gorllewin	1	1	4	2	2	5
Cwm Taf	1		3	2		2
Powys	1		2		1	
Caerdydd a'r Fro	1	1	3	2		9 (1 16-24)
Cyfanswm*	9(7)	5(7)	22(28)	10(20)	4(12)	35(32)

*Mae'r cromfachau'n dynodi nifer darged y cyfweiliadau ar gyfer pob grŵp.

2.9 **Arweinwyr Lotiau:** Cafodd arweinwyr y Lotiau eu cyfweld yn gyntaf i roi trosolwg cychwynnol o'r ddarpariaeth gwasanaeth (yn benodol, mewn perthynas â phartneriaethau, ymgysylltiad mentoriaid cymheiriaid, atgyfeiriadau defnyddwyr gwasanaeth a darpariaeth cymorth), monitro perfformiad, ochr yn ochr â deilliannau ac effeithiau canfyddedig. Hefyd, roedd cyfweiliadau yn rhoi ffocws penodol ar effaith y pandemig COVID-19 ar y ddarpariaeth.

2.10 **Mentoriaid cymheiriaid, arbenigwyr cyflogaeth, cydlynwyr a mentoriaid cymheiriaid â ffocws ar gyflogwyr:** Cafodd mentoriaid cymheiriaid, arbenigwyr cyflogaeth, cydlynwyr a mentoriaid cymheiriaid â ffocws ar gyflogwyr eu cyfweld i fesur eu safbwynt o gael eu cyflogi yn eu rôl, yn ychwanegol at y cymorth y maent yn ei ddarparu, a deilliannau'r Gwasanaeth Di-waith ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth. Hefyd, gofynnwyd cwestiynau i arbenigwyr cyflogaeth a mentoriaid cymheiriaid â rôl gyflogaeth benodol ynglŷn â'r cymorth cyflogaeth a ddarparwyd.

2.11 **Partneriaid darparu ac atgyfeirwyr:** Yn ogystal â'r rheiny a oedd yn gysylltiedig yn uniongyrchol â darparu'r gwasanaeth, cafodd partneriaid darparu ac atgyfeirwyr eu

⁴ Mae hwn yn dynodi nifer y cyfranogwyr 16-24 oed. Roedd cyfanswm o bump o'r cyfranogwyr yn 16-24 oed.

cyfweld hefyd i roi dealltwriaeth ddyfnach o'r modd y mae'r Gwasanaeth Di-waith yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, llwyddiant y partneriaethau hyn, ochr yn ochr â deilliannau canfyddedig ac unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwelliannau i'r gwasanaeth.

2.12 **Cyflogwyr:** Cafodd cyflogwyr a oedd wedi darparu lleoliadau gwaith neu gyflogaeth i'r Gwasanaeth Di-waith eu cyfweld i gael dealltwriaeth o'u hymglymiad â'r gwasanaeth a buddion canfyddedig ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth.

2.13 **Cyfranogwyr:** Cafodd cyfranogwyr y Gwasanaeth Di-waith o'r saith o Lotiau eu cyfweld er mwyn pennu profiad defnyddwyr y gwasanaeth mewn ardaloedd gwahanol. Cafodd cyfanswm o 35 o gyfranogwyr eu cyfweld, ac roedd y mwyafrif ohonynt (86 y cant) ohonynt yn y categori 25 oed a hŷn. Yn benodol, gofynnwyd cwestiynau i gyfranogwyr yn ymwneud â'u cefndir, y cymorth yr oeddent wedi'i dderbyn a'r buddion yn deillio o ymwneud â'r gwasanaeth.

Ystyriaethau a heriau

2.14 Mae nifer o ystyriaethau methodolegol yn werth eu nodi. Yn gyntaf, er bod ymchwilwyr wedi gallu rhagori ar y rhif targed (32) o gyfweiliadau gyda chyfranogwyr y Gwasanaeth Di-waith trwy gynnal 35 o gyfweiliadau, roedd y rhain yn heriol i'w cael. Roedd cyfraddau ymateb cyfranogwyr i negeseuon e-bost yn isel, ac roedd yn anodd cael rhai cyfranogwyr i ymgysylltu o ystyried eu hanghenion iechyd meddwl ac, ar gyfer y rheiny mewn cyflogaeth, eu hymrwymadau amser. Yn ogystal, nid oedd gwybodaeth gyswllt o restr y Wybodaeth Fonitro yn cynnwys enwau cyfranogwyr, gan arwain at ymagwedd lai personol yn ystod y cyswllt cychwynnol. Yng nghyd-destun y ffactorau hyn, dim ond pump (14 y cant) o'r 35 o gyfranogwyr oedd heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (16-24 oed) gyda'r 30 o gyfranogwyr eraill yn y grŵp 25 oed a hŷn.

2.15 Yn ail, roedd ymgysylltu â phartneriaid darparu a chyflogwyr yn heriol, gan na ddarparwyd manylion cyswllt gan rai Lotiau, ac mewn Lotiau eraill, nid oedd cyflogwyr a phartneriaid darparu yn ymateb er gwaethaf ymdrechion niferus i gysylltu â nhw.

2.16 Yn olaf, nid oedd bob amser yn bosibl cyflawni'r nifer darged o gyfweiliadau gyda darparwyr y Gwasanaeth Di-waith oherwydd nifer gyfyngedig yr unigolion mewn rhai rolau ar yr adeg y gwnaed y gwaith maes. Er enghraifft, ym Mhowys, dim ond dau fentor cymheiriaid oedd yn cael eu cyflogi yn ystod y cyfnod casglu data, ac nid

oedd unrhyw arbenigwyr cyflogaeth yn cael eu cyflogi ym Mhowys, Cwm Taf, a Chaerdydd a'r Fro.

Dadansoddi gwybodaeth fonitro

- 2.17 Caiff data ar gyfer y Gwasanaeth Di-waith ei gasglu ar ffurf copi caled gan bob darparwr. Mae hwn yn cael ei fewnbynnu wedyn i gronfa ddata ganolog at ddibenion monitro. Mae'r data hwn yn monitro nodweddion cyfranogwyr fel rhywedd, ethnigrwydd, statws cyflogaeth, a lefel cymwysterau. Mae hefyd yn monitro deilliannau'r cyfranogwyr.
- 2.18 Fel rhan o'r dadansoddiad, cafodd y data ei lanhau ac unwyd rhai categorïau, fel lefel cymwysterau. Cafodd y rhain eu huno i sicrhau bod modd cymharu meintiau categorïau, gan mai dim ond nifer fach o gyfranogwyr a gyflawnodd lefelau cymwysterau uwchlaw lefel 3. Wedyn, cynhyrchwyd tablau amlder ar gyfer holl nodweddion y cyfranogwyr. Gellir gweld y rhain yn Atodiad A. Cafodd yr amlderau hyn eu croes-dablu wedyn yn ôl ardal weithredu er mwyn cymharu nodweddion ar draws pedair ardal y rhaglen.
- 2.19 Cydgasglwyd y deilliannau lle'r oedd yn angenrheidiol i sicrhau bod modd cymharu meintiau categorïau lle'r oedd meintiau samplau bach i'w cael, er mwyn deall beth oedd cyfran y cyfranogwyr ar y rhaglen a oedd yn eu bodloni. Cafodd y rhain eu croes-dablu wedyn yn ôl maes deilliannau, statws cyflogaeth wrth ddechrau'r rhaglen, a chategori cyfranogwyr (Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Sylweddau, neu'r Ddau).
- 2.20 Cynhaliwyd prawf annibyniaeth Sgwâr-Chi Pearson am arwyddocâd ar y croes-dabliadau wedyn, i ganfod p'un a yw'r ddau newidyn yn gysylltiedig â'i gilydd.
- 2.21 Profwyd y rhain yn erbyn cyfwng hyder $p < 0.05$. Dim ond croes-dabliadau y canfuwyd fod ganddynt berthynas arwyddocaol rhwng y newidynnau sydd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad data o ddeilliannau'r rhaglen.
- 2.22 Mae cyfyngiadau â'r data gan fod deilliannau cyfranogwyr wedi'u hawlio ar ddiwedd y cymorth a ddarparwyd. Felly, gan nad yw'r wybodaeth fonitro yn cynnwys y dyddiad y cyflawnwyd y deilliannau, mae unrhyw ddadansoddiad yn seiliedig ar amser yn amhosibl, gan nad yw'n hysbys pa bryd y cymerodd y cyfranogwr ran mewn cwrs, dilyn cymhwyster, neu ddechrau gwaith neu leoliad gwirfoddol. O ganlyniad, mae'n anodd canfod effaith mesurau diogelu COVID-19 ar y deilliannau hyn.

- 2.23 Yn ail, rydym yn gwybod nad yw'r data yn gwbl gyflawn nac yn adlewyrchu'r gweithgareddau. Dywedodd cyfweiliadau gyda mentoriaid cymheiriaid bod dangos tystiolaeth o ddeilliannau yn her barhaus. Yn benodol, disgrifiwyd bod dangos tystiolaeth o gyflogaeth – yn enwedig chwe mis ar ôl i gyfranogwr adael y rhaglen – yn anodd.
- 2.24 Yn olaf, mae'r data sydd ar gael yn gyflawn hyd at fis Mai 2022. O ganlyniad, nid yw deilliannau ar gyfer cyfranogwyr presennol wedi'u hadlewyrchu yn y dadansoddiad.

3. Recriwtio Cyfranogwyr

3.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno dadansoddiad o ddata monitro rhaglenni a gasglwyd gan ddarparwyr y Gwasanaeth Di-waith rhwng Awst 2016 a Mai 2022. Mae hefyd yn amlinellu'r heriau a wynebwyd gan ddarparwyr wrth recriwtio cyfranogwyr, gan ganolbwyntio'n arbennig ar effaith y pandemig COVID-19 ar arferion recriwtio.

Recriwtio yn erbyn targedau

- 3.2 Yn gyffredinol, yn ôl data'r Wybodaeth Fonitro, cafodd 18,110 o gyfranogwyr eu recriwtio i'r Gwasanaeth Di-waith hyd at fis Mai 2022. Gosodwyd targedau recriwtio yn seiliedig ar lefelau camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl a diweithdra ar y pryd ar gyfer pob ardal weithredu, ac mae pob un ohonynt bron â'u bodloni. Roedd pob un o ardaloedd y rhaglen wedi cyflawni o leiaf 89 y cant o'u targed recriwtio erbyn y cyfnod hwn, fel y dangosir yn Nhabl 3.1. Disgwylir, felly, y bydd pob un o'r pedair ardal weithredol yn cyrraedd o leiaf 90 y cant o'u targedau erbyn diwedd y cyfnod ariannol. Yn y categori 25 oed a hŷn, roedd cyfran dargedig o 60 y cant hefyd ar gyfer pobl a oedd yn economaidd anweithgar, a 40 y cant ar gyfer y di-waith hirdymor. Yn ôl data'r Wybodaeth Fonitro, roedd y cyfrannau gwirioneddol yn debyg ar 57 y cant a 43 y cant, yn y drefn honno.
- 3.3 Adroddodd cyfweleion mewn rhai ardaloedd hefyd, er mwyn ymdopi ag amrywiadau nodedig yn y galw dros gyfnod a rhwng ardaloedd, ynghyd ag absenoldebau staff, bod targedau'n cael eu rhannu ar draws darparwyr.

Tabl 3.1: Niferoedd recriwtio yn ôl Ardal

Ardal	Nifer	Targed	Canran
Dwyrain Cymru 16-24	1,457	1,628	89%
Dwyrain Cymru 25+	4,446	4,768	93%
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd 16-24	2,878	3,100	93%
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd 25+	9,319	9,718	96%

Ffynhonnell: Data Gwybodaeth Fonitro, ym mis Mai 2022.

- 3.4 Roedd cyfran y cyfranogwyr o bob categori yn amrywio ar draws yr ardaloedd gweithredol, fel y dangosir yn Nhabl 3.2. Yn fwyaf nodedig, roedd y cyfranogwyr â heriau o ran camddefnyddio sylweddau (gan gynnwys y rheiny â phroblemau iechyd

meddwl hefyd) yn fwy cyffredin yn y categori 25 oed a hŷn (50 y cant) na'r rhai yn y categori 16-24 (31 y cant). Ychydig o amrywio oedd rhwng Dwyrain neu Orllewin Cymru a'r Cymoedd, neu'r lotiau unigol.

Tabl 3.2: Cyfran y categorïau cyfranogwyr ar gyfer pob ardal

Labeli Rhesi	Dwyrain Cymru 16-24	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd 16-24	Dwyrain Cymru 25+	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd 25+	Cyfanswm
Y ddau	24%	24%	35%	42%	36%
Iechyd meddwl	67%	70%	54%	48%	54%
Camddefnyddio Sylweddau	9%	6%	11%	10%	10%

Ffynhonnell: Data Gwybodaeth Fonitro, ym mis Mai 2022.

Nodweddion cyfranogwyr

3.5 Mae nodweddion y 18,110 o gyfranogwyr fel y'u cofnodwyd yn y data monitro o Awst 2016 i Fai 2022 fel a ganlyn (ceir crynodeb llawn o nodweddion yn **Atodiad Un**):

- **Oedran:** Mae 77 y cant yn 25 oed a hŷn, gyda'r 23 y cant sy'n weddill yn 16-24 oed. Mae hyn yn agos iawn at y dosbarthiad cyfranogwyr a ddisgwyllir (76 y cant yn 25 oed a hŷn, a 24 y cant yn 16 i 24 oed), a lywiwyd gan ymchwil ar oedrannau pobl sy'n cael cymorth camddefnyddio cyffuriau ac iechyd meddwl, a lefelau diweithdra.
- **Rhywedd:** Mae oddeutu dwy ran o dair (64 y cant) wedi'u rhestru fel gwrywod, ac mae traean (36 y cant) wedi'u rhestru fel benywod. Roedd opsiwn i ddewis 'Arall', ond mae nifer y cyfranogwyr a restrwyd fel 'Arall' yn rhy fach i sicrhau anhysbysrwydd.
- **Ethnigrwydd:** Mae'r gyfran o gyfranogwyr Pobl Dduon neu Leiafrifoedd Ethnig yn parhau ar dri y cant. Eto, roedd ychydig o dan hanner y cyfranogwyr o gefndir Pobl Dduon neu Leiafrifoedd Ethnig o Gaerdydd a'r Fro, sy'n gynrychioliadol o ddemograffeg gyffredinol Cymru⁵.
- **Statws cyflogaeth:** O'r 13765 o gyfranogwyr yn y grŵp 25 oed a hŷn, roedd 57 y cant yn economaidd anweithgar ac roedd 43 y cant yn ddi-waith hirdymor. Roedd 4335 o gyfranogwyr yn 16-24 oed a heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

⁵ Yn ôl data cyfrifiad 2011, mae 95.6 y cant o'r boblogaeth yng Nghymru yn Wyn

- **Statws iechyd:** Adroddodd dros hanner yr holl gyfranogwyr bod ganddynt gyflwr iechyd meddwl (54 y cant), adroddodd 10 y cant bod ganddynt fater yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau, ac roedd diagnosis deuol gan 36 y cant. O gymharu â'r sefyllfa yn yr adroddiad terfynol blaenorol, mae'n ymddangos bod cynnydd yng nghyfran y cyfranogwyr sy'n adrodd am gyflwr iechyd meddwl yn unig (i fyny 3 y cant), ond fel yn flaenorol, mae nifer y cyfranogwyr a gofnodwyd bod ganddynt fater yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau yn unig wedi bod yn gyson isel, ac adroddodd cyfweleion fod gan y rhan fwyaf o gyfranogwyr â mater yn ymwneud ag iechyd meddwl broblem(au) iechyd meddwl sylfaenol yn ogystal.

3.6 Mae'r Wybodaeth Fonitro yn rhoi trosolwg o'r rhwystrau rhag cyflogaeth a oedd yn wynebu cyfranogwyr:

- **Cymwysterau presennol cyfyngedig:** yn unol â'r adroddiad blaenorol, nid oedd gan dros draean o gyfranogwyr unrhyw gymwysterau blaenorol (n=6808, 38 y cant), a lle'r oedd cyfranogwyr yn meddu ar gymwysterau, roeddent yn aml ar lefel isel – er enghraifft, o'r rheiny yr adroddodd bod ganddynt gymwysterau, roedd 16 y cant (n=2965) islaw Lefel 1 y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (FfCChC); roedd 39 y cant (n=6925) ar Lefelau 1-3 y FfCChC; ac roedd rhyw 8 y cant (n=1402) ar lefelau 5-8 y FfCChC (dim ond pump o gyfranogwyr oedd â chymhwyster ar Lefel 8).
- **Statws y cartref:** roedd 65 y cant o'r holl gyfranogwyr o gartref heb waith, ac roedd 38 y cant o gartref ag un oedolyn.
- **Digartrefedd:** adroddodd chwech y cant eu bod yn ddigartref/wedi eu gwahardd o dai.
- **Cyfrifoldebau gofalu:** roedd gan 13 y cant o gyfranogwyr blant dibynnol, ac roedd gan 12 y cant gyfrifoldebau gofal plant ar gyfer plant o dan 18 oed. Hefyd, roedd cyfrifoldebau gofalu gan dri y cant am oedolion anabl neu aelod teulu oedrannus.
- **Anableddau a chyflyrau cyfyngol:** adroddodd naw y cant am anabledd – ond gan fod hyn yn seiliedig ar hunanadrodd, gallai'r cyfrannau gwirioneddol fod yn uwch. Adroddodd 22 y cant am gyflwr iechyd a oedd yn eu cyfyngu o ran gwaith.

Llwybrau a phrosesau atgyfeirio cyfranogwyr

3.7 Y llwybr atgyfeirio mwyaf cyffredin at y gwasanaeth yw drwy asiantaethau allanol, y Ganolfan Byd Gwaith fel arfer. Mae llwybrau eraill y soniodd cyfranogwyr y rhaglen

amdanynt yn cynnwys gweithiwr meddygol proffesiynol, Meddyg Teulu neu weithiwr lechyd Meddwl, Canolfan Cyngor ar Bopeth, neu'r elusen Mind a oedd yn atgyfeirio cyfranogwyr at y Gwasanaeth Di-waith ar ôl nodi y byddent yn elwa o gael cymorth ychwanegol i fynd i'r afael â'r sbectwm angen ehangach.

- 3.8 Mewn ardaloedd lle mae darparwr y Gwasanaeth Di-waith yn arbenigo mewn cymorth camddefnyddio sylweddau, roedd cyfranogwyr a oedd wedi bod ar raglenni ymadfer penodol wedi'u cysylltu â'r gwasanaeth gan eu gweithwyr camddefnyddio sylweddau i elwa o gymorth ychwanegol mewn perthynas ag anghenion eraill, fel lles, tai, materion ariannol, cyfiawnder troseddol a datblygu arferion dyddiol a strwythurau cymorth.
- 3.9 Canfu cyfweiliadau â'r cyfranogwyr fod cael cyflogaeth a hyfforddiant yn gysylltiedig â gwaith yn rheswm llai cyffredin dros ymuno â'r rhaglen, fodd bynnag, roedd yn nod hirdymor ar ôl mynd i'r afael â rhwystrau yn gysylltiedig â materion iechyd meddwl. Hyd yn oed pan roedd cyfranogwyr eisoes yn cael cymorth gan wasanaeth arall â ffocws ar waith, sef 'Reemploy', roeddent yn cael eu hatgyfeirio i'r Gwasanaeth Di-waith i gael darpariaeth ychwanegol.
- 3.10 Adroddodd y cyfweleion hefyd fod cyfran fawr o'r ddemograffeg 25 oed a hŷn wedi cyfeirio'u hunain at y rhaglen. Roedd hyn yn arbennig o wir i'r cyfranogwyr hynny a oedd wedi ailymgysylltu â'r gwasanaeth ar ôl tynnu 'nôl yn flaenorol. Yn ôl y cyfweleion cyfranogol, roedd hunanatgyfeiriadau yn ganlyniad clywed ar lafar gan ffrind, argymhelliad gan wasanaeth arall, neu chwiliad ar-lein am gymorth o'r fath. Roedd pobl ifanc yn llai tebygol o hunan-atgyfeirio i'r rhaglen.

Ffactorau allweddol a oedd yn effeithio ar recriwtio cyfranogwyr


- 3.11 Dywedodd mentoriaid cymheiriaid ac arweinwyr darparwyr fod COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar eu gallu i recriwtio cyfranogwyr newydd i'r rhaglen. Ategir hyn gan ddata'r Wybodaeth Fonitro, fel y dangosir yn Ffigur 3.1 isod. Heb fod yn syndod, yn ystod y cyfnod pan gyflwynwyd y cyfnodau clo cenedlaethol cyntaf (Blwyddyn pedwar, chwarter pedwar), gwelwyd gostyngiad sylweddol yn nifer y cyfranogwyr a recriwtiwyd i'r rhaglen. Fodd bynnag, cyn y gostyngiad hwn, bu tuedd tuag i lawr o ran cyfranogwyr yn cofrestru dros y flwyddyn flaenorol (gweler Ffigur 3.1). Mewn rhai ardaloedd, adroddwyd bod recriwtio wedi dod i ben yn llwyr yn ystod ychydig fisoedd cyntaf y pandemig, gyda rhai mentoriaid cymheiriaid a staff gweinyddol wedi'u rhoi ar y cynllun ffyrlo am rai misoedd.

3.12 Nid yw data wedi'i gofnodi yn cyfrif am y rheiny sydd wedi hunanatgyfeirio i'r gwasanaeth am yr eildro. Gan na ellir cyfrif y cyfranogwyr hyn ddwywaith, nid yw adrodd yn erbyn targedau bob amser yn adlewyrchu maint a lefel y gwaith a ddarperir ar lawr gwlad o angenrheidrwydd:

'Rydyn ni'n cael llawer o hunanatgyfeiriadau gan bobl sydd eisoes wedi bod ar y rhaglen - ni allwn ni gyfri'r deilliannau hyn ddwywaith felly mae hynny'n effeithio ar y targedau, ond rydyn ni'n dal i gynnig cymorth.' (Mentor cymheiriaid)

3.13 Mae Ffigur 3.1 isod yn dangos nifer y cofrestriadau cyfranogwyr am y cyfnod Awst 2016 i Fai 2022.

Ffigur 3.1: Nifer y cyfranogwyr a gofrestrodd dros gyfnod – prif ystadegau



Ffynhonnell: Data Gwybodaeth Fonitro, hyd at fis Mai 2022.

3.14 Dangosodd cyfweiliadau â mentoriaid cymheiriaid a staff darparu mai'r rheswm mwyaf arwyddocaol am y gostyngiad mewn atgyfeiriadau yn ystod mesurau diogelu'r pandemig - a'r diffyg 'adfer' yn y cyfnodau dilynol - oedd anallu staff i adeiladu presenoldeb gweladwy yn y gymuned a sefydliadau atgyfeirio. Oherwydd rheolau lleol y Ganolfan Byd Gwaith a oedd yn cyfyngu ar nifer y staff mewn swyddfeydd, nid oedd y rhan fwyaf o Lotiau yn gallu cynnal presenoldeb gweledol, personol. O ganlyniad, gwnaed atgyfeiriadau dros y ffôn yn bennaf, ac roeddent yn dibynnu ar berthnasoedd gweithio da sefydledig rhwng sefydliadau. Adroddodd

cyfweleion o sefydliadau atgyfeirio am berthnasoedd cydweithredu cryf gyda staff y Gwasanaeth Di-waith a lefelau uchel o hyder wrth wneud atgyfeiriadau i'r gwasanaeth.

- 3.15 Gwaethygyd y gostyngiad mewn atgyfeiriadau gan drosiant staff uchel yn ardaloedd y rhaglen a sefydliadau atgyfeirio. Fel y dywedodd un mentor cymheiriaid a ddechreuodd yn ystod y pandemig, *'roedd rhaid i ni ailfeithrin perthnasoedd gydag atgyfeirwyr o'r cychwyn yn deg'*. Hefyd, adroddodd y cyfweleion am rywfaint o bellter oddi wrth rai gwasanaethau atgyfeirio. Nodwyd bod gwasanaethau prawf yn anodd ymgysylltu â nhw yn ystod ac ar ôl rheoliadau COVID-19 mewn rhai ardaloedd.
- 3.16 Nid yw'r diffyg gwelededd hwn 'ar y stryd' wedi'i ailsefydlu'n llawn eto. Eto, priodolwyd hyn yn rhannol i'r trosiant mewn staff a'r angen i ailfeithrin perthnasoedd rhwng sefydliadau. Er bod rhai sefydliadau atgyfeirio wedi ailagor, nid yw bob un ohonynt wedi rhoi'r gorau i'r rheolau a'r rheoliadau sy'n cyfyngu ar bresenoldeb ffisegol yn eu heiddo.
- 3.17 Adroddodd rhai ardaloedd eu bod mewn cyfnod o annhyfiant ar hyn o bryd o ran atgyfeiriadau, yn sgil ansicrwyddau ariannu yn y dyfodol (adeg y gwnaed y gwaith maes), ac nid oeddent yn hyrwyddo'r gwasanaeth yn weithredol. Roedd rhai eraill yn cwestiynu p'un a ddylent fod yn cymryd atgyfeiriadau o hyd, o ystyried y gallai'r gwasanaeth fod yn dod i ben o bosibl.

'Mae angen y mentoriaid cymheiriaid yn ôl yn y canolfannau gwaith arnom. Weithiau, nid ydynt yno pan fyddant wedi'u bwcio i mewn gyda ni a gall hyn effeithio ar atgyfeiriadau...nid yw mentoriaid cymheiriaid mor bresennol a gweledol ag yr oedden nhw, ond rwy'n gwybod ein bod yn tynnu at ddiwedd cyfnod y rhaglen felly efallai nad ydynt eisiau cymryd gormod yn fwy?'
(Arweinydd rhaglen)

- 3.18 Roedd adroddiadau hefyd am atgyfeiriadau amhriodol, gan gynnwys pobl yr oedd eu hanghenion yn rhy gymhleth i'r Gwasanaeth Di-waith, a'r rheiny yr oedd angen iddynt gael eu hailatgyfeirio at asiantaethau eraill, er enghraifft, tai. Roedd canfyddiad bod cynnydd wedi bod mewn atgyfeiriadau amhriodol am fod gwasanaethau eraill yn gwbl orlawn, fel deilliant i'r pandemig.

Ymadawyr cynnar a chynnal ymgysylltiad

- 3.19 Yn gyffredinol, fe wnaeth 8,366 (46 y cant) o'r cyfranogwyr adael y rhaglen yn gynt na'r disgwyl. Roedd amrywio sylweddol yng nghyfran yr ymadawyr cynnar rhwng yr ardaloedd gweithredol. Gwelodd Gorllewin Cymru a'r Cymoedd gyfran uchaf o ymadawyr ar draws yr holl gategoriâu (58 y cant) na Dwyrain Cymru (44 y cant) (Tabl 3.3).

Tabl 3.3: Cyfran yr ymadawyr cynnar ym mhob contract

	Ymadawyr Cynnar
Dwyrain Cymru 16-24	35%
Dwyrain Cymru 25+	37%
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd 16-24	47%
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd 25+	52%

Ffynhonnell: Data Gwybodaeth Fonitro, ym mis Mai 2022.

- 3.20 Adroddodd mentoriaid cymheiriaid ac arweinwyr rhaglenni am heriau ychwanegol o ran cynnal ymgysylltiad. Fodd bynnag, mae'r data monitro yn dangos bod cyfran uwch o ymadawyr cynnar yn ystod y rheoliadau cyn y pandemig (55 y cant) nag ar ôl i'r pandemig ddechrau (45 y cant). Roedd yr heriau y soniwyd amdanynt yn cynnwys:

- Problemau yn ymgysylltu â chymorth ar-lein oherwydd diffyg cysylltedd rhyngrwyd/mynediad i adnoddau digidol/ar-lein/dros y ffôn
- Ofn y gallai cael cyflogaeth ddod â risg ariannol ar adeg pan fod ansicrwydd o ran swyddi: *'Teimlai rhai ei bod yn adeg rhy ansicr i ddod oddi ar fudd-daliadau... mae'n cadw cleientiaid i ffwrdd, hynny a chynnydd mewn ynysigrwydd, ofn, gorbryder'* (Mentor cymheiriaid)
- Dadrithiad pan nad oedd y gwasanaeth yn gallu diwallu anghenion cymorth ychwanegol cleientiaid yn gyflym:

"Gall disgwyliadau cleientiaid o'r hyn y gallwn ni wneud iddynt fod mor uchel. Maen nhw'n disgwyl y gallwn ni wneud popeth yn iawn ar unwaith, ac mae rhai ohonyn nhw'n dadrithio pan na allan nhw gael mynediad i bethau yn syth...Fe wnaeth nifer y rhai a roddodd y gorau iddi gynyddu pan gaewyd mynediad i wasanaethau cymorth fel iechyd a chwrsela, nid yw rhai pobl eisiau neu ni all rhai pobl aros ac maent yn mynd yn rhwystredig ac yn gadael y rhaglen". (Mentor cymheiriaid)

4. Gweithredu'r Gwasanaeth Di-waith

4.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno tystiolaeth o'r cynnydd a wnaed gan ddarparwyr wrth ddarparu'r Gwasanaeth Di-waith gyda ffocws arbennig ar yr heriau yn sgil y pandemig COVID-19, y ffyrdd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r rhain a beth sy'n gweithio'n dda. Yn bennaf, mae'n defnyddio data ansoddol a gasglwyd drwy gyfweiliadau gyda chyfranogwyr, staff rheng flaen, arweinwyr prosiect a phartneriaid darparu ym mhob un o'r saith o Lotiau.

Recriwtio a chadw mentoriaid cymheiriaid

4.2 Cydnabuwyd yn eang bod y defnydd o fentoriaid cymheiriaid sy'n defnyddio'u profiad bywyd eu hunain i ddarparu cymorth empathetig a heb farnu, a chanllawiau i gyfranogwyr, yn allweddol i lwyddiant y Gwasanaeth Di-waith a'i fod yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan ddefnyddwyr y gwasanaeth a phartneriaid darparu.

4.3 Tynnodd yr adroddiad cynnar ar y Gwasanaeth Di-waith⁶ sylw at drosiant uchel mentoriaid cymheiriaid ac mae tystiolaeth o'r gwerthusiad hwn yn dangos bod y sefyllfa hon yn parhau. Mae'r rhesymau'n cynnwys straen (wedi'i achosi weithiau gan y rôl, ac mewn rhai achosion, yn sgil materion iechyd meddwl a oedd yn bodoli eisoes), peidio â bod â'r set sgiliau a/neu brofiad cywir i ymgymryd â'r rôl, heriau wrth ddelio ag agweddau gweithdrefnol ac agweddau data'r rôl (fel dangos tystiolaeth bod targedau wedi'u cyflawni) ac anfodlonrwydd â lefelau tâl.

4.4 Adroddwyd bod recriwtio i'r rôl mentor cymheiriaid yn anoddach tra bod mesurau diogelu COVID-19 ar waith gan nad oedd gan wasanaethau yr un lefel mynediad i bobl a oedd yn ymadfer ac yn gwneud yn dda sydd, yn draddodiadol, wedi'u recriwtio i rôl mentor cymheiriaid. Fel yr eglurodd un cyfwelai:

“Rydyn ni'n recriwtio orau pan fyddwn wedi datblygu perthynas â phobl, ond oherwydd COVID, rhoddwyd y gorau i'r holl ganolfannau galw heibio ac nid oedd unrhyw weithgareddau grŵp...ychydig iawn o ymgeiswyr y mae hysbysebion ar-lein yn eu denu”. (Arweinydd rhaglen)

4.5 Mae heriau recriwtio a chadw wedi'u gwaethygu gan COVID-19 a'r ansicrwyddau contractiol a gafwyd adeg gwneud y gwaith maes wrth i'r rhaglen agosáu at ddiwedd ei chyfnod ariannu. Mewn rhai ardaloedd, roedd staff eisoes wedi'u

⁶ [Gwerthusiad o'r Gwasanaeth Di-waith: Adroddiad terfynol](#)

diswyddo ac mewn ardaloedd eraill, nid oedd staff yn cael eu recriwtio i swyddi gweigion presennol.

4.6 Hefyd, adroddwyd bod absenoldebau staff yn uchel mewn rhai ardaloedd, mewn rhai achosion naill ai oherwydd bod COVID-19 arnynt, neu effeithiau COVID-19 a'i fesurau diogelu cysylltiedig ar iechyd meddwl. Adroddodd y cyfweleion hefyd am achosion o staff yn mynd ar absenoldeb salwch tymor hir neu'n ymddieithrio o'r rhaglen yng nghyd-destun diswyddo posibl.

4.7 Adroddodd un arweinydd rhaglennu mai'r her fwyaf oedd '*tîm staff yn newid drwy'r amser*' a bod hyn, law yn llaw ag absenoldeb staff, yn ffactorau yr oedd rhaid eu deall wrth gyflogi pobl â phrofiad bywyd:

“Os ydych chi eisiau cyflogi pobl â phrofiad bywyd, mae angen i chi ystyried hyn. Dydych chi ddim yn adfer o broblem iechyd meddwl, rydych chi'n dysgu byw gyda hynny. Mae pobl wedi cael amser i ffwrdd yn rhannol fel gweithrediad eu hiechyd meddwl. Os ydych chi eisiau ymagwedd mentoriaid cymheiriaid, mae'n rhaid i chi wynebu hyn”. (Arweinydd rhaglen)

4.8 Mae'r cyfuniad o absenoldeb staff a swyddi gweigion wedi cael effaith ar feintiau llwyth achosion, yr adroddwyd eu bod yn arbennig o uchel yn ystod y pandemig, rhwng 45-60 yn nodweddiadol. Er bod rhai mentoriaid cymheiriaid wedi adrodd eu bod yn gallu ymdopi â meintiau eu llwyth achosion (yn enwedig lle'r oedd cleientiaid yn 'segur'), adroddodd rhai eraill eu bod yn cael anhawster â'u llwyth gwaith.

Hyfforddiant a datblygiad ar gyfer mentoriaid cymheiriaid

4.9 Mae llawer o fentoriaid cymheiriaid naill ai wedi bod yn ddefnyddiwr gwasanaeth gyda'r Gwasanaeth Di-waith neu yn fentor cymheiriaid gwirfoddol cyn symud i mewn i'r rôl ar gyflog. Mae hyn yn golygu bod ganddynt lefel dda o brofiad a dealltwriaeth o'r model gwasanaeth a sut y caiff ei ddarparu.

4.10 Roedd yr hyfforddiant gorfodol cychwynnol ar gyfer mentoriaid cymheiriaid yn cynnwys hyfforddiant Mentora Cymheiriaid Lefel 1 a Lefel 2 yn bennaf, ac roedd enw da iddo yn gyffredinol ymhlith y mentoriaid cymheiriaid. Roedd yn cynnwys: diogelu; cyfrinachedd/GDPR; ffiniau a moeseg; cydraddoldeb ac amrywiaeth; a chymorth cyntaf iechyd meddwl. Mewn rhai achosion, roedd yr hyfforddiant cychwynnol hwn yn cael ei gwblhau gan fentoriaid cymheiriaid gwirfoddol neu ddefnyddwyr gwasanaeth, gyda'r posibilrwydd y gallent ymgeisio am rôl ar gyflog pe

bai un yn dod ar gael. Mewn achosion eraill, recriwtiaid newydd ar gyfer y rôl ar gyflog oedd yn cwblhau'r hyfforddiant.

- 4.11 Mewn rhai ardaloedd, roedd yr hyfforddiant cychwynnol yn cynnwys hyfforddiant ymsefydlu penodol darparwr hefyd, a oedd yn cynnwys pethau fel hyfforddiant 'hyfforddi'r hyfforddwr', codi a chario, a hyfforddiant ymwybyddiaeth o COVID-19, a phrosesu data a thystiolaeth. Roedd hyn naill ai'n cael ei gynnig dros gyfnod hyfforddiant dwys dros ryw wythnos, neu dros gyfnod hirach o ryw dair wythnos.
- 4.12 Yn ystod y pandemig, roedd hyfforddiant cychwynnol yn cael ei ddarparu ar-lein gan mwyaf, ac roedd rhai mentoriaid cymheiriaid yn ei weld yn heriol i ddysgu mewn cyd-destun lle nad oedden nhw'n gallu gweld tasgau'n cael eu gwneud mewn amgylchedd gweithio go iawn. Hefyd, roedd ymdeimlad gan rai mentoriaid cymheiriaid bod yr hyfforddiant cychwynnol yn rhy bell i ffwrdd oddi wrth ymarferoldebau gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth mewn cyd-destun o ddydd i ddydd.
- 4.13 Aeth y rhan fwyaf o ddarparwyr i'r afael â chyfyngiadau'r hyfforddiant cychwynnol drwy hyfforddiant mewn swydd a chysgodi. Roedd hyn yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan fentoriaid cymheiriaid gan yr oedd yn rhoi'r cyfle iddyn nhw ddysgu drwy wneud, yn enwedig gan fod rhai tasgau, fel llenwi'r gronfa ddata, yn anodd iddynt ddysgu heb i rywun ddangos iddynt sut i wneud. Roedd hyd yr hyfforddiant mewn swydd a'r cysgodi yn amrywio yn ôl darparwr, gyda rhai'n cynnig ychydig ddyddiau'n unig a rhai'n cynnig hyd at chwe wythnos. Roedd cysgodi yn heriol trwy gydol y pandemig gan nad oedd mentoriaid cymheiriaid newydd yn gallu gweithio'n gorfforol nesaf at eu mentor cymheiriaid goruchwyliol, er eu bod yn gwrandao ar alwadau ffôn mewn rhai achosion.
- 4.14 Roedd mentoriaid cymheiriaid mewn rhai ardaloedd yn elwa o gael hyfforddiant cymharol hirach a mwy systematig yn dilyn y cyfnod hyfforddiant cychwynnol. Roedd rhai'n cael cynnig cyrsiau a hyfforddiant ychwanegol ar gyfer datblygu gyrfa a pherfformiad rôl swydd (rhai ar Lefel 3 neu Lefel 4). Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant ar Gyngor Camddefnyddio Sylweddau, Ymyrraeth Hunanladdiad, Cyngor ac Arweiniad, Gofal Cymdeithasol, Cyfweld Cymhellol, Ymagweddau Adferol, ac Arweinyddiaeth a Chyngor. Er bod rhai darparwyr yn gosod mentoriaid cymheiriaid gyda darparwyr hyfforddiant allanol, nid oedd rhai eraill yn talu am hyn ac yn lle hynny roeddent yn cyfyngu'r hyfforddiant i hynny a oedd yn cael ei gynnig yn fewnol. Roedd mentoriaid cymheiriaid yn gwerthfawrogi'n fawr y cyfle i gael

hyfforddiant parhaus ac roeddent yn gweld hyn fel ffordd i hyrwyddo'u gyrfa mewn gwaith cymorth.

4.15 Dywedodd un mentor cymheiriaid:

'Mae'n swydd heriol ac unigryw ond rwy'n teimlo bod cefnogaeth dda i mi gyflawni ac mae llwybrau dilyniant a hyfforddiant da i'w cael i'r rheiny sydd eisiau hynny...Rydyn ni'n gwneud NVQ lefel 1 a 2 mewn cyngor ac arweiniad, a gallant wneud ILM lefel 4 hefyd ac arbenigo mewn arweinyddiaeth a chamddefnyddio sylweddau - y cyfan yn cael ei ddarparu gan hyfforddiant academi (y darparwr) – llwybrau dilyniant da a chlir.' (Mentor cymheiriaid)

4.16 Mae mentoriaid cymheiriaid yn gwerthfawrogi strwythurau cymorth cryf yn ystod eu gwaith o ddydd i ddydd, ac roedd hyn yn arbennig o bwysig yn ystod cyfnodau o weithio o bell. Roedd cymorth effeithiol yn cynnwys cyfarfodydd tîm rheolaidd, cynigion o gwnsela a goruchwyliaethau rheolaidd un i un. Un enghraifft o arfer da oedd galwad ail-grwpio gyda mentoriaid cymheiriaid ar ddiwedd bob dydd fel eu bod yn gallu dod at ei gilydd a thrafod unrhyw sefyllfaoedd o straen neu sefyllfaoedd problemus. Hefyd, roedd mentoriaid cymheiriaid yn elw o gyfleoedd ar gyfer cynadleddau achos lle gallent drafod atebion a heriau yn ymwneud â'u cleientiaid.

4.17 Pwysleisiodd nifer o arweinwyr darparwyr bwysigrwydd mynd i'r afael â 'blinder tosturi' a chwythu plwc, o ystyried bod gan gyfran o'r staff brofiad o faterion iechyd meddwl eu hunain. Caiff mentoriaid cymheiriaid eu hannog weithiau hefyd i gymryd cam yn ôl wrth gael anhawster gyda rhai sefyllfaoedd a datgeliadau gan gyfranogwyr.

4.18 Yn gyffredinol, roedd mentoriaid cymheiriaid yn fodlon â'r hyfforddiant a'r cymorth a theimlent yn gymwys iawn i gyflawni'u rôl. Fodd bynnag, nid oedd mentoriaid cymheiriaid a oedd yn gweithio gydag un darparwr yn teimlo bod eu hyfforddiant yn ddigonol a'u bod wedi'u 'bwrw i'r dwfn'. Y rheswm pennaf am hyn oedd trosiant uchel iawn mentoriaid cymheiriaid a chapasiti cyfyngedig, gan arwain at fod angen i recriwtiaid newydd ddechrau gweithio gyda chleientiaid cyn gynted ag y bo modd, a chyfleoedd cyfyngedig i gysgodi swydd.

4.19 Mynegodd rhai mentoriaid cymheiriaid orbryder ynglŷn â'u gallu i ymdopi â'r mathau o faterion a gyflwynwyd iddynt, sy'n mynnu cymorth mwy arbenigol na hynny yr oedden nhw'n gallu ei ddarparu:

“Mae dau o bobl wedi’u hatgyfeirio ataf, un ohonynt â diagnosis anhwylderau personoliaeth. Mae’r llall yn yfed potel o fodca bob dydd ac mae’n defnyddio heroin yn ddyddiol. Dwi ddim yn gwybod sut i weithio gyda’r cleientiaid hyn.’
(Mentor cymheiriaid)

‘Os nad yw rhywun yn gallu gweithio oherwydd mater iechyd meddwl, dwi ddim yn gwybod a alla’ i helpu. Oherwydd mae’r mater iechyd meddwl hwnnw ganddyn nhw o hyd. Ydyn, maen nhw’n dal yn ddeubegynol. Maen nhw’n dal i ddiodef o orbryder difrifol’. (Mentor cymheiriaid)

4.20 Ar draws yr holl ardaloedd, awgrymodd mentoriaid cymheiriaid ac arweinwyr darparwyr y byddai’r hyfforddiant ategol canlynol yn ddefnyddiol:

- Cefnogi problemau iechyd meddwl mwy difrifol a sefyllfaoedd argyfwng, fel risg hunanladdiad
- Cynnal ffiniau (h.y., y llinell rhwng cwnsela a mentora)
- Materion gweithdrefnol fel rheoli cronfa ddata a chasglu tystiolaeth
- Defnydd o offer megis ar gyfer mesur deilliannau meddwl a pharodwydd am waith, ac ar gyfer gosod nodau
- Hwyluso sesiynau grŵp
- Gwybodaeth am gymorth allanol ac asiantaethau

Effaith COVID-19 ar les defnyddwyr gwasanaeth

4.21 Adroddwyd bod y pandemig wedi cael effaith arwyddocaol a negyddol ar les meddwl defnyddwyr y Gwasanaeth Di-waith. Roedd mentoriaid cymheiriaid yn rhoi adroddiadau cyson am gleientiaid yn dod atynt gyda lefelau uwch o orbryder, ynysigrwydd cymdeithasol, ofn gadael y tŷ a defnyddio sylweddau. Hefyd, nododd y cyfweleion gynnydd yn nifer y cleientiaid a oedd yn dod atynt gyda theimladau hunanladdol a’u bod yn teimlo’n anghymwys i ddelio â nhw. Adroddodd mentoriaid cymheiriaid hefyd fod y pandemig wedi cael effaith negyddol ar ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol cleientiaid iau.

4.22 Ategwyd adroddiadau mentoriaid cymheiriaid gan gyfweleion cyfranogol a adroddodd eu bod yn diodef mwy o orbryder, hwyliau isel, a theimladau o agoraffobia yn ystod y pandemig. Egluront fod ynysigrwydd cymdeithasol a chorfforol wedi arwain at iddynt fynd yn encilgar ac a wnaeth cyswllt â phobl eraill yn ‘fwy lletchwith’. Roedd colli hyder a chymhelliant, yn enwedig yn y cyd-destunau

cymdeithasol ac yn gysylltiedig â gwaith, yn thema gyffredin, gyda'r cyfnodau clo yn cynyddu'r teimladau hyn.

- 4.23 Mewn rhai ardaloedd, adroddodd mentoriaid cymheiriaid bod y cynnydd mewn materion iechyd meddwl wedi arwain y gwasanaeth i dderbyn atgyfeiriadau pobl a oedd ymhellach i ffwrdd o'r farchnad lafur nag yn flaenorol, a nodont fod hyn wedi arwain at gynnydd mewn llwythi achosion ar gyfer rhai mentoriaid cymheiriaid:

“Fe wnaethom ostwng meini prawf cymhwysedd y prosiect i dderbyn y rheiny yr oedd angen cymorth arnyn nhw...rydym wedi bod yn llai llym gan fod yr angen wedi bod yn uwch o lawer dros y pandemig, ond cafodd hyn effaith ganlyniadol o ran llwythi achosion” (Mentor cymheiriaid)

- 4.24 Ar draws yr holl Lotiau, nodwyd bod cymorth wedi symud o fod â ffocws ar gyflogaeth i 'les a helpu pobl'. Roedd hyn wedi cynnwys ymestyn cymorth i aelodau teulu eraill, helpu pobl i gael mynediad i fanciau bwyd, a chanolbwyntio'n gyffredinol ar gefnogi gwelliannau mewn iechyd meddwl a meithrin hyder fel camau at gyflogaeth.

“Mae gymaint o faterion iechyd meddwl gan ein cwsmeriaid...prin yw'r rhai sy'n chwilio am waith... felly rydyn ni'n dod â nhw ychydig bach yn agosach at amser pan fyddan nhw'n teimlo y gallen nhw fod yn gallu gweithio”.
(Arweinydd rhaglen)

- 4.25 Pwysleisiodd mentoriaid cymheiriaid ac arweinwyr rhaglen fod delio ag anghenion mwy cymhleth a lefelau angen uwch yn mynd â mwy o amser ac y gall cynnydd fod yn araf gyda'r cleientiaid hyn:

“Fe wnaeth camddefnyddio alcohol a sylweddau gynyddu dros y cyfnodau clo, felly rydyn ni'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â hynny yn gyntaf cyn sgiliau a hyfforddiant cyflogaeth. Rydyn ni'n ceisio mynd i'r afael â'r anghenion mwy cymhleth yn yr asesiad cyntaf/cam atgyfeirio, ond mae hyn yn cymryd mwy o amser gyda phob achos cymhleth.” (Arweinydd rhaglen)

Mynediad at gymorth allanol

- 4.26 Cydnabuwyd yn eang fod y Gwasanaeth Di-waith yn llenwi bylchau sylweddol mewn darpariaeth cymorth cyflogaeth ac iechyd meddwl, yn enwedig ar gyfer y grŵp oedran 25 a hŷn. Adroddodd cyfweleion cyfranogol mai'r Gwasanaeth Di-waith yn aml oedd yr unig wasanaeth yr oedd ganddynt fynediad iddo oherwydd diffyg

adnoddau eraill yn eu hardal a bod amserau aros hir am wasanaethau iechyd meddwl.

“Yn fy llygaid i, ef yw fy mhrif weithiwr cymorth, ef yw'r gweithiwr gorau sydd gen i. Fyddwn i ddim eisiau unrhyw weithiwr arall; mae'n fy adnabod i'n dda ac mae wedi bod gyda mi drwy adegau anodd.” (Cyfranogwr)

- 4.27 Nododd partneriaid atgyfeirio, er bod mwy o wasanaethau ar gyfer y grŵp oedran 16-24, nad ydyn nhw'n darparu'r math o gymorth teilwredig y mae ei angen ar bobl sy'n wynebu rhwystrau at waith sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl. Roeddent yn gwerthfawrogi'r ffaith fod y Gwasanaeth Di-waith, yn wahanol i wasanaethau eraill, yn gallu cynnig mynediad cyflym at gwnsela, a nodont fod y Gwasanaeth Di-waith yn unigryw o ran darparu cymorth i droseddwy'r Categori Un⁷.
- 4.28 Fel y trafodwyd uchod, fe wnaeth y pandemig a'i fesurau diogelu cysylltiedig effeithio'n negyddol ar les meddwl cyfranogwyr a gwelodd y Gwasanaeth Di-waith gynnydd mewn atgyfeiriadau pobl ag anghenion mwy cymhleth. Gwaethygyd hyn gan y gostyngiad mewn mynediad at gymorth allanol arbenigol fel effaith COVID-19 a roddodd bwysau ar y Gwasanaeth Di-waith i fodloni'r galw:

“Roedd pobl yn cael trafferth cael mynediad at unrhyw wasanaethau. Roedd llawer o wasanaethau'r GIG wedi dod i ben yn sydyn, ac roeddent yn rhyddhau pobl â materion iechyd meddwl a materion yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddol yr oedd dal angen cymorth arnynt, felly cynyddodd yr achosion yn aruthrol...Roedd angen i ni weithredu llawer mwy fel gwasanaeth atal argyfwng a cheisio cael mynediad at wasanaethau cymorth rheng flaen yn ogystal ag asesu a darparu rhaglen gytunedig i'w cael yn ôl i'r cyflwr o fod yn barod at waith yn y pen draw” (Arweinydd rhaglen)

Symud at fodolau darparu ar-lein/o bell

- 4.29 Mae'r pandemig COVID-19 a chyfnodau clo cysylltiedig a mesurau diogelu eraill wedi cael effaith barhaus ar y dull o ddarparu'r Gwasanaeth Di-waith, sydd wedi gweld newid o gyswllt wyneb yn wyneb â defnyddwyr y gwasanaeth yn bennaf, i gymorth ar-lein. Disgrifiodd arweinwyr y Lotiau a mentoriaid cymheiriaid fanteision ac anfanteision sy'n gysylltiedig â'r dull newydd hwn o weithio.

⁷ Mae Categori Un ar gyfer pobl sydd wedi cyflawni troseddau rhywiol ac sydd wedi'u rhoi ar y gofrestr troseddwy'r rhyw.

- 4.30 Canfu mentoriaid cymheiriaid fod cyfranogwyr â materion yn ymwneud â gorbryder cymdeithasol wedi ymateb yn dda i gyswllt o bell, gan eu bod wedi gallu rheoli'u rhyngweithiadau yn well a pheidio ag angen gadael y tŷ os oedd hyn yn rhy heriol iddynt. Roedd cyswllt o bell yn cynnig mwy o hygyrchedd i rai cyfranogwyr hefyd, yn enwedig lle ceir rhwystrau o ran trafniadaeth. Yn y modd, hwn, canfu mentoriaid cymheiriaid fod ganddynt fwy o opsiynau ar gyfer cyrraedd pobl â lefelau gorbryder uchel. Ar yr un pryd, roedd mwy o hyblygrwydd gan fentoriaid cymheiriaid yn eu diwrnod gwaith am nad oedd angen iddynt weithio yn ôl apwyntiadau wyneb yn wyneb sefydlog, a gallent wneud galwadau pan oedd yn gyfleus a phriodol.
- 4.31 Fodd bynnag, o ystyried bod llawer o ddefnyddwyr gwasanaeth yn dioddef lefelau uchel o ynysigrwydd cymdeithasol, teimlai rhai mentoriaid cymheiriaid ac arweinwyr rhaglen bod symud at gymorth ar-lein wedi gwaethygu eu hynysigrwydd trwy eu torri i ffwrdd oddi wrth bwynt cyswllt cymdeithasol pwysig: *'Mae aros gartref yn nodedig waeth i lawer ac mae mynd allan a rhyngweithio mor fuddiol.'* (Arweinydd rhaglen)
- 4.32 I rai cleientiaid, roedd y diffyg cyswllt wedi cyfrannu at syrthio ar ei hôl hi o ran y cynnydd roeddent wedi dechrau ei wneud: *"Yr hyn a welon ni oedd bod pobl a oedd wedi gwneud cynnydd da dros ychydig fisoedd wedi mynd yn ôl i'r cychwyn yn deg"*. Adroddodd mentoriaid cymheiriaid hefyd fod cymorth ar-lein wedi'i gwneud hi'n anoddach iddynt weithredu ar yr arwyddion gweledol a llafar sy'n ei gwneud hi'n haws adnabod materion a phroblemau y gallai cleientiaid fod yn delio â nhw:
- "Gyda Zoom a'r ffôn, nid oes unrhyw arwyddion iaith y corff, felly mae'n anoddach darllen eu hanghenion, gallant ddweud celwydd, mae'n hawdd colli materion a gall cleientiaid guddio pethau y byddech chi'n sylw arny'n nhw pe baech yn union o'u blaenau nhw"* (Mentor cymheiriaid)
- 4.33 Canfu mentoriaid cymheiriaid ymateb cymysg i weithgareddau grŵp ar-lein. O ran un ystyriaeth, roedd amgylcheddau ar-lein yn darparu dulliau rhyngweithio diogel i bobl a oedd yn cael anhawster gyda gorbryder, ac fe wnaeth ymgysylltu â gweithgareddau grŵp gynyddu. Roedd pethau a oedd yn gweithio'n dda yn cynnwys cwisiau, grŵp cerddoriaeth (microffon agored), ac ystafell sgwrsio hyder a lles. Fodd bynnag, mewn rhai ardaloedd, sylwodd mentoriaid cymheiriaid fod ymgysylltu ar-lein wedi lleihau lefel yr ymgysylltiad. Mae hyn yn debygol o ddibynnu ar ansawdd y grwpiau ar-lein a'r grwpiau y bu cyfranogwyr yn colli allan arnynt yn ystod y pandemig. Dywedodd un mentor cymheiriaid:

“Daeth rhai gweithgareddau grŵp i ben, gweithgareddau fel garddio, glanhau traethau, teithiau cerdded, teithiau i’r sw i wirfoddoli y teimlir eu bod yn llawer mwy effeithiol o ran hybu lles cleientiaid, ac fe’u disodlwyd gan ddigwyddiadau cymdeithasol ar-lein. Roedd yr agweddau wyneb yn wyneb a’r agweddau awyr agored ar agweddau gwirfoddol y rhaglen wedi’u colli’n fawr. Gwelwyd colli’r agwedd gymdeithasol wyneb yn wyneb oherwydd COVID fel trychineb”.

(Mentor cymheiriaid)

- 4.34 Er bod gan fwyafrif y defnyddwyr gwasanaeth fynediad i’r rhyngwryd a llwyfan ar-lein, adroddodd mentoriaid cymheiriaid ac Arweinwyr Lotiau eu bod wedi colli rhai cleientiaid oherwydd diffyg cysylltedd rhyngwryd/cysylltedd rhyngwryd gwael, dim ffôn symudol, neu ddiffyg hyder wrth ddefnyddio adnoddau ar-lein. Roedd rhai eraill a oedd heb fynediad i’r rhyngwryd yn dibynnu’n bennaf ar gyswllt ffôn, ac nid oeddent yn gallu ymuno â sesiynau grŵp a oedd yn dibynnu ar fynediad i Zoom. Adroddodd un darparwr fod un o fanciau’r stryd fawr wedi ariannu cyfrifiaduron llechi i gleientiaid nad oeddent yn gallu cael mynediad i gymorth oherwydd diffyg offer TG, a bod hyn wedi helpu rhai cleientiaid i gadw mewn cysylltiad.
- 4.35 Yn y cyfnod ar ôl codi mesurau diogelu cenedlaethol olaf y pandemig, canfu arweinwyr darparwyr a mentoriaid cymheiriaid ymateb cymysg gan gyfranogwyr o ran y graddau yr oeddent eisiau, neu’n gallu, ymweld â safleoedd i gael cymorth wyneb yn wyneb. Adroddwyd bod rhai cyfranogwyr yn dal yn amharod i adael y tŷ neu eu bod wedi dweud eu bod yn well ganddynt gynnal cyswllt o bell oherwydd yr hygrychedd a’r hyblygrwydd y mae’n ei gynnig.

Darparu cymorth Mentoriaid Cymheiriaid

Cynnig cymorth a gweithgareddau lles

- 4.36 Un o nodweddion hynod y Gwasanaeth Di-waith yw’r cyswllt mynych â mentoriaid cymheiriaid a dyfnder yr ymgysylltiad y gall mentoriaid cymheiriaid ei gynnig i gyfranogwyr. Yn aml, roedd hyn ar ffurf mentoriaid cymheiriaid yn gwirio gyda chyfranogwyr neu’n cael sgysiau mwy ystyrlon yn gysylltiedig â lles na fyddai cyfranogwyr wedi eu cael fel arall. Yn wir, roedd y cyfweiliadau â chyfranogwyr yn arwydd cryf iawn o bwysigrwydd pobl yn cael rhywun i siarad â nhw. Teimlwyd bod siarad yn cynnig cyfle i bobl ‘*wyntyllu teimladau a mynegi’u pryderon*’, ac i glywed barn wrthrychol ar bethau yr oedd cyfranogwyr yn teimlo eu bod yn llethol neu’n rhy emosïynol.

- 4.37 Ar ôl sefydlu ymddiriedaeth gychwynnol, adroddodd y cyfweleion cyfranogol y gallent agor i fyny i'w mentor cymheiriaid. Adroddodd nifer o gyfweleion nad oedd ganddyn nhw unrhyw un arall i siarad â nhw, eu bod yn teimlo'n encilgar ac yn ynysedig yn gymdeithasol, yn enwedig yn ystod y pandemig. Daeth cael mentor cymheiriaid fel rhywun i ymddiried ynddo i'r amlwg fel un o'r prif ysgogwyr ar gyfer newid a gwella lles.
- 4.38 Roedd cyswllt mynych yn nodwedd allweddol o weithio o bell, gan fod y ffôn a llwyfannau ar-lein yn darparu mwy o effeithlonrwydd a hyblygrwydd. Roedd cyfranogwyr yn croesawu'r cyfle am gyswllt mynych a llai dwys ar adeg pan oedd llawer yn dioddef ynysigrwydd cymdeithasol. Cynyddwyd cyswllt pan roedd ei angen ar gyfranogwyr, yn enwedig yn y cam gweithio cychwynnol gyda mentoriaid cymheiriaid neu yn ystod adegau mwy heriol, ac fe'i lleihawyd pan roedd angen mwy o le ac amser ar gyfweleion i ddelio â beth bynnag yr oedd angen iddyn nhw ganolbwyntio arno. Adroddodd cyfranogwyr eu bod yn teimlo'n hyderus ac yn gyfforddus yn estyn allan i'w mentor cymheiriaid pa bryd bynnag yr oedd angen iddynt wneud.
- 4.39 Roedd mentoriaid cymheiriaid yn deall fod gan gyfranogwyr anghenion gwahanol iawn a'u bod yn gwneud cynnydd ar gyfraddau gwahanol. Eglurodd un mentor cymheiriaid fod "*pethau gwahanol yn gweithio'n dda i bobl wahanol*" a bod angen i'r ymagwedd a gymerant gael ei theilwra i'r unigolyn.
- 4.40 Roedd mentoriaid a chyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r ymddiriedaeth a'r gonestrwydd a oedd yn aml yn datblygu rhyngddynt. O safbwynt y cyfranogwr, roedd gallu gweithio gydag un unigolyn ymroddgar '*sy'n f'adnabod i'n dda*' yn fuddiol i hyn ac ar gyfer gwella iechyd meddwl, ac ailadeiladu a datblygu ymddiriedaeth gyda phobl yn gyffredinol.

"Pan fydd gormod o ofn ar bobl i egluro sut maen nhw'n teimlo, mae cael yr un unigolyn yn ei gwneud hi'n bosibl i feithrin cydberthynas, mae'n dod yn normal i siarad â nhw. Yn yr ychydig sgysiau cyntaf gyda (enw'r mentor cymheiriaid), roedd yn anodd agor i fyny." (Cyfranogwr)

Roedd perthnasoedd yn lleihau rywsut pan roedd cyfranogwr yn cael ei basio rhwng amryfal fentoriaid cymheiriaid, a oedd yn digwydd mewn ardaloedd lle ceid trosiant uchel. Roedd mentoriaid cymheiriaid cyfnewid yn ei chael hi'n anodd ailsefydlu ymddiriedaeth a chydberthynas, ac roedd cyfranogwyr yn cael anhawster gyda'r

diffyg parhad. *“Fe wnaeth (enw’r mentor cymheiriaid) adael ac yna gadawodd un arall. Roedd yn ansefydlog, braidd. Roedd hyn yn dipyn o ergyd i mi”*.

- 4.41 Yn ogystal â chyswllt mynych â chyfranogwyr, roedd mentoriaid cymheiriaid yn darparu help yn gyson gyda thasgau bywyd ymarferol, fel llenwi ffurflenni, cael mynediad i wasanaethau, bancio, darparu liffiau, trefnu apwyntiadau a mynd i apwyntiadau yn gwmni, eiriolaeth mewn gofal iechyd, help gyda symud tŷ, gollwng presgripsiynau, a chael parseli bwyd. Roedd hyn yn cael ei werthfawrogi’n fawr gan gyfranogwyr gan ei fod yn rhoi cymhelliant ac yn eu galluogi i gwblhau tasgau angenrheidiol.
- 4.42 Rhoddodd un mentor cymheiriaid enghraifft o gyfranogwr yr oedd wedi’i annog i agor cyfrif Credyd Cynhwysol pan roedd gormod o embaras arno wneud hynny. Defnyddiodd y mentor cymheiriaid dechnegau ysgogiadol i egluro mai nod tymor byr yw Credyd Cynhwysol a fyddai’n ei alluogi i ‘godi’n ôl ar [ei] draed’ a ‘chwilio am, a dod o hyd i, swydd’. Disgrifiodd y mentor cymheiriaid werth arbennig eu rôl fel a ganlyn:
- “Mae cymorth cymheiriaid yn cael drwodd i bobl mewn ffordd nad yw cymorth proffesiynol yn gwneud. Rwyf wedi bod yn yr un lle â chi, ac rwyf yma nawr. Maen nhw’n gwybod eich bod chi’n deall. (...) Rwy’n credu mai dyma un o’r pethau pwysicaf am y rhaglen yn bersonol.”* (Mentor cymheiriaid)
- 4.43 Roed mentoriaid cymheiriaid yn gallu atgyfeirio cyfranogwyr at weithgareddau a chyrsgiau lles mewnlol yn aml hefyd. Mewn rhai ardaloedd, roedd y rhain yn gysylltiedig ag iechyd meddwl, fel cyrsiau ar hyder, deall gorbryder, ymwybyddiaeth o straen, a rheoli iechyd meddwl. Roedd mentoriaid cymheiriaid a chyfranogwyr yn edrych ar y rhain fel elfennau cadarnhaol iawn, ond nid oeddent yn cael eu gweld fel rhywbeth a oedd yn disodli gwasanaethau iechyd meddwl proffesiynol fel cwnsela, a mynegodd rhai mentoriaid cymheiriaid rwystredigaeth ynglŷn â’r diffyg opsiynau atgyfeirio. Mewn un neu ddwy o ardaloedd, gallai cyfranogwyr gael mynediad i wasanaethau cwnsela a oedd yn cael eu cynnig yn fewnlol gan y darparwr.
- 4.44 Roedd gogwydd cymdeithasol i weithgareddau eraill, fel celf a chrefft, cerdded, coginio, ioga, meddylgarwch, chwaraeon, cwisiau, gemau cardiau, a boreau coffi. Diben y gweithgareddau cymdeithasol hyn oedd cael pobl allan o’r tŷ a rhyngweithio â phobl eraill. Roedd yr un peth yn wir yn ystod y pandemig pan roddwyd grwpiau

ar-lein yn y rhan fwyaf o ardaloedd. Er bod mentoriaid cymheiriaid yn cydnabod bod y gweithgareddau yn sylfaenol braidd, maent yn darparu ffordd o feithrin hyder ac o fesur gallu i ryngweithio'n gymdeithasol.

- 4.45 Roedd cyfeirio at elusennau, banciau bwyd neu wasanaethau arbenigol eraill, fel cymorth gyda dyledion neu gymorth cyfreithiol, yn cael ei werthfawrogi hefyd gan gyfranogwyr yr oedd angen cymorth ariannol, iechyd meddwl, cymorth cyfreithiol, cymorth gyda thai neu gymorth arall arnynt ymhellach na hynny y gallai mentoriaid cymheiriaid ei gynnig iddynt. Yn y rhan fwyaf o achosion, nid oedd cyfranogwyr yn ymwybodol o ba ddarpariaethau eraill oedd ar gael yn eu hardal leol, felly roeddent yn gwerthfawrogi gwybodaeth y mentoriaid cymheiriaid am adnoddau lleol.

Bod â phrofiad bywyd o faterion iechyd meddwl a/neu gamddefnyddio sylweddau

- 4.46 Roedd arweinwyr darparwyr, asiantaethau partner, mentoriaid cymheiriaid a chyfranogwyr yn cytuno ar werth profiad bywyd mentoriaid cymheiriaid o faterion iechyd meddwl a/neu gamddefnyddio sylweddau. Roedd y rhan fwyaf o ddarparwyr yn amcanu i recriwtio mentoriaid cymheiriaid â phrofiad bywyd, ond mewn rhai ardaloedd, nodwyd nad oedd hwnnw gan yr holl staff ac y byddai'n well cael mwy.
- 4.47 Disgrifiodd arweinwyr darparwyr a mentoriaid cymheiriaid nifer o fuddion y mae profiad bywyd yn ei gynnig i'r rôl. Roedd y rhain yn cynnwys dealltwriaeth ddofn o'r heriau a wynebwr gan gyfranogwyr, y gallu i ddarparu cymorth empathetig heb farnu, lefel uwch o hygredd a'r gallu i ennyn ymddiriedaeth yn gyflym gyda chyfranogwyr. Gyda phrofiad personol o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, teimlai mentoriaid cymheiriaid yn fwy abl hefyd i lywio cyfranogwyr trwy'r ddarpariaeth ehangach. Adroddont y gallai cael eu cymell gan ddymuniad i 'roi yn ôl' i bobl sy'n cael anhawster fel yr oedden nhw ar un adeg, fod yn ffactor pwysig iddyn nhw ymrwymo i'r rôl.
- 4.48 O safbwynt y cyfranogwyr, profiad bywyd oedd y cynhwysyn allweddol a oedd yn gwneud mentoriaid cymheiriaid yn unigryw ac yn wahanol i weithwyr cymorth neu weithwyr gofal eraill, ni waeth pa mor dda y gallai'r rhain fod wedi bod. Dywedodd un cyfranogwr:

“Cyn gynted ag y siaradais i â (enw'r mentor cymheiriaid), fe wnaeth hynny afael ynof yn llwyr. Oherwydd mae'n cael ei redeg gan bobl sy'n deall ac sy'n wirioneddol poeni amdanoch...Mae'n dda iawn. Rydych chi'n teimlo bod rhywun wir yn eich deall, fel eich bod yn berson ac nid yn rhif.” (Cyfranogwr)

4.49 Roedd mentoriaid cymheiriaid yn cael eu gwerthfawrogi am eu dealltwriaeth o gaethiwed a brwydrau iechyd meddwl cyfranogwyr, ac yn arbennig, ymdopi â gorbryder. Roedd hyn yn eu galluogi i siarad am faterion y teimlent nad oedd eu teulu, ffrindiau, neu weithwyr iechyd proffesiynol a gweithwyr proffesiynol eraill yr oedd ganddynt gyswllt â nhw, yn eu deall. Adroddodd rhai cyfranogwyr mai eu mentor cymheiriaid oedd yr unig berson yr oeddent yn gallu siarad ag ef yn dilyn cyfnodau maith o ynysigrwydd cymdeithasol, dieithrio oddi wrth aelodau'r teulu neu brofedigaeth. Ymhellach, roedd mentoriaid cymheiriaid yn gallu darparu model rôl i rai cyfweleion trwy ddangos ei bod yn bosibl cyflawni newid cadarnhaol:

“Dyweddodd (enw'r mentor cymheiriaid) ei fod [yntau] wedi bod yno hefyd, a gwnaeth i mi deimlo bod modd cyflawni pethau, o gyrraedd y gwaelodion i fod mewn gwaith ac yn cynorthwyo eraill.” (Cyfranogwr)

Heriau a chyfyngiadau gyda rôl y mentor cymheiriaid

4.50 Er bod gan fentoriaid cymheiriaid set sgiliau cryf yn deillio o'u profiad bywyd, un her bosibl yw y gallai fod diffyg sgiliau a chymwyseddau technegol a phroffesiynol lefel uwch ganddynt. Nododd arweinwyr darparwyr a mentoriaid cymheiriaid anawsterau wrth gyflawni agweddau gweithdrefnol ac agweddau data'r rôl, fel targedau, asesiadau ac offer mesur. Arweiniodd hyn un ymarferydd profiadol i awgrymu ei bod yn bwysig cael cydbwysedd profiad bywyd a setiau sgiliau proffesiynoledig. Gallai hyn olygu bod mentoriaid cymheiriaid yn cael eu cynorthwyo a'u hategu'n dda gan gydweithwyr heb brofiad bywyd sydd â sgiliau a chymwyseddau eraill.

4.51 Awgrymodd cyfweiliadau â mentoriaid cymheiriaid hefyd eu bod yn cael anawsterau â diffinio a chynnal cyfyngiadau cymorth. Cododd y mater hwn yng nghyd-destun cyfranogwyr yn dod atynt gydag anghenion iechyd meddwl cymhleth, lefel uchel dros y pandemig, a bod angen rhyw fath o ymyrraeth therapiwtig seicolegol arnynt, nad oedd ar gael yn lleol o ystyried y pwysau ar y system:

“Mewn egwyddor, roedd cymorth gan fentoriaid cymheiriaid wedi'i gynllunio i drafod rhagolygon cyflogaeth, ond yn aml roedd hyn yn troi yn sesiynau cymorth gan nad oedd gan bobl unrhyw le arall i droi...felly roedden nhw'n datgelu pethau a oedd yn anodd delio â nhw...” (Mentor cymheiriaid)

4.52 Mae hyn yn cyfeirio at fater cysylltiedig, sef y graddau y mae mentoriaid cymheiriaid sydd â phrofiad bywyd wedi gwneud cynnydd digon pell gyda'u hadferiad eu hunain neu fod ganddynt sefydlogrwydd digonol yn eu hiechyd a'u lles hwythau i'w galluogi

i gynnal y rôl a ffynnu yn y rôl. Gallant gael eu 'hysgogi' gan weithio gyda phobl â heriau yr oeddwn nhw'n eu hwynebu ar un adeg, neu gallant ddiodef 'blinder tosturi'. Mae rhai arweinwyr darparwyr yn awgrymu hefyd y gall mentoriaid cymheiriaid gael anhawster â phwysau'r swydd, yn enwedig agweddau gweithdrefnol ac agweddau'r rôl yn ymwneud â data, ac y gallai hyn eu harwain i adael eu swydd neu fod angen cymryd amser i fwrdd arnynt am resymau iechyd a lles.

- 4.53 O ystyried hyn, mae'n bwysig sicrhau bod mentoriaid cymheiriaid yn deall ffiniau a chyfyngiadau cymorth, ac nad ydynt yn cael eu tynnu'n ormodol i mewn i gwnsela neu berthnasoedd o fath therapiwtig dwys. I gefnogi hyn, mae'n bwysig hefyd fod cyfle gan fentoriaid cymheiriaid i gyfeirio'n effeithiol ac atgyfeirio at wasanaethau iechyd a lles lleol, a allai gynnwys gwasanaethau GIG lleol, gwasanaethau cwnsela, a chysiau datblygiad personol. Roedd cyfranogwyr yn gwerthfawrogi gwasanaeth cwnsela'r GIG yn arbennig (lle'r oedd ar gael) a gwasanaethau a oedd yn cael eu cynnig gan elusennau fel MIND a Sheds. Yn absenoldeb opsiynau cyfeirio o'r fath, gall mentoriaid cymheiriaid ddod yn brif opsiwn cymorth ar gyfer cyfranogwyr.

"Yn hanfodol, rhoddodd diffyg gwasanaethau rheng flaen eraill mwy o bwysau arnom ni i weithredu fel cwnselwyr. Mentoriaid ydyn ni'n gyntaf ac yn bennaf, ac rydym yn ofalus i beidio â cheisio gweithio y tu allan i'n harbenigedd."

(Mentor cymheiriaid)

Cynnig cymorth cyflogadwyedd amserol ac effeithiol

- 4.54 Mae lefel gymharol uchel o anghenion iechyd meddwl cymhleth gan gyfran uchel o gyfranogwyr, ac mae'r cymorth a roddwyd iddynt wedi'i ogwyddo at hyn. Mae hyn wedi golygu y bu angen i fentoriaid cymheiriaid ystyried yn ofalus pa bryd y mae cyfranogwyr yn 'barod am waith' a pha lefel o gymorth cyflogadwyedd i'w darparu. Mae arweinwyr darparwyr a mentoriaid cymheiriaid o'r farn fod amseriad a chydbwysedd cymorth yn gysylltiedig â lles gyda chymorth yn gysylltiedig â chyflogaeth yn hanfodol i gynnal ymgysylltiad a chyflawni deilliannau tymor hwy o ran swyddi ac addysg. Gall gwthio cyfranogwyr i mewn i waith yn rhy gynnar heb sylfeini lles a heb oresgyn rhwystrau sydd wedi gwreiddio fod yn niweidiol i gynnydd cyffredinol cyfranogwyr. Pwysleisiodd darparwyr bwysigrwydd mynd yn ôl cyflymder y cyfranogwyr:

“Nid ydyn ni’n gwthio pobl i mewn i rywbeth nad ydyn nhw’n hollol barod ar ei gyfer. Felly, mae’r cyfan yn ymwneud â dilyniant. Mae’r cyfan yn ymwneud â dechrau gyda’r pethau llai hynny.” (Mentor cymheiriaid)

“Gall fod yn broses hir iawn i gael rhywun yn barod am waith...nid ydyn ni’n rhoi pwyslais mawr ar ganlyniad cael swydd, mae sgiliau meddal yn bwysicach ...buddugoliaethau bach dros amser, nid ydyn ni’n diffinio cynnydd yn ôl graddfeydd amser a thargedau.” (Arweinydd rhaglen)

4.55 O ystyried hyn, mae un darparwr wedi sefydlu llwybr ‘lles’ newydd ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth nad ydyn nhw’n barod am waith eto, ac mae angen cymorth arnynt i oresgyn gorbryder, meithrin hunanhyder ac, mewn rhai achosion, ailymgysylltu â phobl eraill a gadael y tŷ. O gyfnod cynnar yn y pandemig, maen nhw wedi darparu cyrsiau ar-lein poblogaidd sy’n canolbwyntio ar normaleiddio cyflyrau iechyd meddwl, *‘fel nad yw pobl yn teimlo eu bod yn rhyfedd, fel nad ydyn nhw’n teimlo eu bod ar eu pennau’u hunain yn eu profiadau’*. Mae cyrsiau’n ymdrin â chamau at les fel hylendid cwsig da, bwyta’n dda, mynd allan i’r awyr agored, strategaethau ar gyfer rheoli straen a gorbryder, a hybu hunanhyder.

4.56 Roedd cyfranogwyr, yn enwedig y rheiny a oedd yn gweld iechyd meddwl a/neu faterion yn ymwneud â chaethiwed fel rhwystrau rhag cael cyflogaeth, yn gwerthfawrogi’r ffaith fod mentoriaid cymheiriaid yn deall pwysigrwydd gweithio mewn ffordd hyblyg ac ar eu cyflymder nhw i sicrhau eu bod yn barod ar gyfer y camau nesaf:

“Roeddwn wedi fy nghreithio gan leoedd gwaith gwirioneddol wenwynig: Nid oeddwn i’n gallu rhagweld y byddwn i’n gweithio gyda’r cyhoedd eto. Nid oeddwn i’n hoffi’r un o’m swyddi erioed.” (Cyfranogwr)

4.57 Roedd symud ymlaen yn araf yn galluogi cyfranogwyr i adnabod nodau a gweithgareddau i symud ymlaen tuag atynt, gan eu bodloni, er enghraifft, drwy gyrsiau byr, gwirfoddoli, a mynd i’r afael ag anghenion ychwanegol. Gallai hyn gynnwys cymryd egwyl fer o weithio gyda’r gwasanaeth hefyd er mwyn sefydlu lles meddwl neu ddelio â materion personol gyda’r hyder y byddent yn gallu ailymgysylltu’n ddiweddarach.

4.58 Yn nodweddiadol, mae gan fentoriaid cymheiriaid set sgiliau sy’n deillio o’u profiad bywyd, ac maent mewn sefyllfa dda felly i gynnig cymorth lles. Efallai nad ydynt mewn sefyllfa gystal i gynnig cymorth cyflogaeth a chyflogadwyedd, er bod y

graddau y cynigir hyn a'r hyder i wneud hynny yn gymysg, gyda rhai o'r farn nad yw'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol ganddynt, a rhai yn teimlo'n fwy abl. Mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â'r hyfforddiant a gawsant a chymorth gan gydweithwyr.

- 4.59 Mewn ardaloedd â rôl arbenigol cyflogaeth, roedd gwerth ychwanegol amlwg bod mentoriaid cymheiriaid yn gallu atgyfeirio cyfranogwyr atynt fel rhan o lwybr dilyniant. Ystyriwyd bod hyn yn fwyaf effeithiol pan roedd proses drosglwyddo hwylus a chydlynus. Yn nodweddiadol, roedd rôl arbenigwr cyflogaeth yn cwmpasu: edrych ar ddyheadau gyrfa; arfarniadau o sgiliau; darparu cymorth chwilio am swydd; nodi hyfforddiant galwedigaethol; ysgrifennu CVs a llythyrau eglurhaol; darparu paratodau ar gyfer cyfweiliad; a ffug gyfweiliadau. Roedd rhai arbenigwyr cyflogaeth yn rhoi pwyslais ar feithrin hyder i fynd i mewn i waith, ac roeddent yn cynnal gweithgareddau grŵp bach i gefnogi hyn.
- 4.60 Nid oedd gan un cyfranogwr unrhyw brofiad o chwilio am waith, er bod ganddo brofiad o gyflogaeth, ac roedd diffyg cymhelliant mawr ganddo. Yn raddol, fe wnaeth yr arbenigwr cyflogaeth gyflwyno ysgrifennu CV a helpodd gyda chwilio am swyddi a chofrestru ar wefannau cyflogaeth fel Gyrfa Cymru ac Indeed. Ymgwymerodd y cyfranogwr â chyrсияu ar-lein ardystiedig, fel Diogelwch Bwyd, Llwytho Trwm, Gweithio gyda Sylweddau Peryglus, Gofal ac Urddas yn y Sector Cymdeithasol, ac Ymwybyddiaeth Alzheimer, yn ogystal â chwblhau'r cwrs mentora cymheiriaid a chael cyfleoedd i wirfoddoli gyda chanolfannau cymunedol lleol. Fe wnaeth adeiladu profiad a sgiliau yn raddol ddatblygu cymhelliant a hyder a darparu'r offer i ddechrau chwilio am waith.
- 4.61 Dim ond nifer fach o ardaloedd oedd yn cynnig lleoliadau gwaith. Bu nifer o heriau o ran sicrhau cyfleoedd lleoliadau gwaith, gan gynnwys gweithio o bell dros y pandemig a diffyg capasiti i gysylltu â chyflogwyr a monitro lleoliadau. Fodd bynnag, llwyddodd un ardal i ddod o hyd i leoliadau drwy'r Ganolfan Byd Gwaith a thrwy fynd at ddarparwyr hyfforddiant yn uniongyrchol gan fod elfen lleoliad gwaith yn gyffredin fel rhan o raglenni hyfforddiant. Mae cwota cyfrifoldeb cymdeithasol gan rai sefydliadau i gymryd pobl ymlaen o'r gymuned leol y mae ganddynt faterion yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau a/neu faterion iechyd meddwl.
- 4.62 Adroddwyd hefyd fod cyflogwyr yn betrus i ymgysylltu â phobl â chyflyrau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, ac o ystyried hyn, mae un darparwr wedi

datblygu offer a darparu cymorth ymwybyddiaeth i gyflogwyr i'w cynorthwyo i dderbyn cleientiaid.

- 4.63 Adroddwyd nad yw cyfranogwyr yn ffafrio lleoliadau gwaith am nad ydyn nhw'n teimlo'n hapus yn gweithio am ddim. Adroddwyd hefyd fod gofynion corfforol a meddyliol lleoliad gwaith yn llethol i lawer o gyfranogwyr, yn enwedig lle nad oes pecyn llawn o gymorth mewn gwaith ar gael iddynt i'w ddefnyddio. Adroddwyd nad oedd lleoliadau gwaith fel swyddfeydd a ffatrioedd yn apelgar i lawer o gyfranogwyr, ac yn aml '*ni allen nhw drafferthu*' cwblhau lleoliad gan olygu eu bod yn aml yn methu cwblhau'r 16 awr ofynnol. Mae mentoriaid cymheiriaid ac arbenigwyr cyflogaeth, felly, wedi bod yn ddetholus iawn ynglŷn â phwy i'w hanfon ar leoliad gwaith.

Cynnig lleoliadau gwirfoddoli

- 4.64 Roedd mentoriaid cymheiriaid a chyfranogwyr yn edrych yn gadarnhaol iawn ar gyfleoedd gwirfoddoli. Y rheswm am hyn oedd bod ganddynt gyswllt agosach yn aml â diddordebau a nodau cyfranogwyr, roedd ffocws cymunedol iddynt, ac roeddent yn hyblyg gan ddibynnu ar anghenion cyfranogwyr. Fe wnaeth rhai cyfranogwyr ddefnyddio gwirfoddoli i gael profiad yn gysylltiedig â gwaith er mwyn gwella rhagolygon swydd, ond roedd rhai eraill yn canolbwyntio ar gyfarfod â phobl newydd a chymdeithasu.
- 4.65 Disgrifiodd un mentor cymheiriaid rywun a oedd heb adael y tŷ ers dwy flynedd hyd nes iddo ymgymryd â lleoliad gwirfoddoli:

“Fy rôl i oedd ei helpu i ailintegreiddio yn y gymdeithas. Roedd wedi gweithio'n galed i ddod yn lân ar ôl camddefnyddio sylweddau. Fy rôl i oedd eu helpu i fynd yn ôl i'r byd. Mynegodd ddiddordeb mewn pysgota, felly chwiliais am gyfle i wirfoddoli yn yr amgueddfa forol. Bellach, gall fynd a gwirfoddoli gymaint neu gyn lleied â phosibl. Mae ganddo grŵp cyfeillion newydd erbyn hyn a dywed bod y cyfle wedi newid ei fywyd.” (Mentor cymheiriaid)

- 4.66 Roedd rhandiroedd cymunedol yn lleoliad gwirfoddoli poblogaidd, a disgrifiodd y cyfweleion cyfranogol eu bod yn rhoi “boddhad mawr” am eu bod yn gwneud rhywbeth “lle mae fy nghalon”, yn gallu helpu pobl eraill, a threulio amser mewn amgylchedd a oedd yn gynhwysol a gyda phobl a oedd yn deall eu profiadau. Darparwyd cyfle tebyg gan brosiect gardd mewn amgueddfa. Yma, bu gwirfoddolwyr yn gweithio ar y safle am dros 18 mis i gwblhau prosiect gardd gyda

rhyw saith i wyth o wirfoddolwyr, a dau fentor cymheiriaid yn dod yno'n wythnosol i weithio. Yr ethos arweiniol oedd hyrwyddo rhyngweithio cymdeithasol, creadigrwydd, bioamrywiaeth, a chynaliadwyedd. Dywedodd y sefydliad a oedd yn cynnig y lleoliadau bod lleoliadau gwirfoddoli o'r fath yn darparu'r canlynol i gleientiaid:

“Cam delfrydol at fod yn barod am waith... maent yn darparu ailintgreiddio mwy graddol i mewn i lwybrau gwaith, trefn bersonol, a threfn arferol, meithrin hyder, a chymdeithasu gydag eraill.” (Darparwr lleoliad gwirfoddoli)

- 4.67 Roedd gwirfoddoli i'r darparwr cyflwyno yn gyffredin iawn ac yn cael ei werthfawrogi am gynnig amgylchedd a oedd yn ddeallgar o faterion iechyd meddwl a/neu faterion yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau, a llwybr i gyflogaeth yn y dyfodol gyda'r gwasanaeth.

Cynnig cyrsiau byr/hyfforddiant

- 4.68 Roedd yr holl ddarparwyr yn cynnig cyrsiau hyfforddiant i gyfranogwyr, naill ai'n fewnol neu wedi'u prynu'n allanol. Roedd cyrsiau â gogwydd galwedigaethol yn cynnwys:

- Hyfforddiant trwydded wagen fforch godi
- Trwydded Awdurdod y Diwydiant Diogelwch
- Cardiau'r Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu (CSCS) ar gyfer safleoedd adeiladu.
- Sgiliau digidol
- Cymorth cyntaf
- Codi a chario

- 4.69 Cafodd y rhain dderbyniad da iawn gan gyfranogwyr gan eu bod yn aml yn golygu cam yn agosach at waith, neu roedd y potensial ganddynt i arwain at waith yn uniongyrchol. Cyflwynwyd llawer ohonynt gan lwyfannau hyfforddiant ar-lein cenedlaethol ac roeddent yn cynnig cymwysterau achrededig. Roedd rhai ardaloedd yn darparu mynediad i gyrsiau diddordeb personol, fel y celfyddydau, dringo, cerfio pren, ac ysgrifennu creadigol.

- 4.70 Roedd darparwyr yn edrych ar y cyfryw gyrsiau mewn ffordd gadarnhaol gan eu bod yn cynnal ymgysylltiad cyfranogwyr, yn enwedig yn ystod y pandemig. Hefyd, roedd cyrsiau yn rhoi strwythur o ddydd i ddydd i gyfranogwyr, ymdeimlad o ddiben a *'chael rhywbeth pleserus i'w wneud'*. Ar ôl cyfnod o broblemau iechyd meddwl difrifol, dechreuodd un cyfranogwr ailgysylltu â phobl ac roedd yn mynd allan o'r tŷ

ar ôl gwneud cwrs gweithio pren: “*Des i i’r arfer â bod o amgylch pobl eto. Roedd y meddylfryd gen i i fynychu a chael rhywle i fynd*”.

5. Cyflawni deilliannau'r prosiect

- 5.1 Mae'r adran hon yn rhoi data ar gyflawni deilliannau'r prosiect yn erbyn targedau Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae'r data yn gyflawn hyd at fis Mai 2022. Dylid nodi bod deilliannau ond wedi'u hadrodd lle mae cyfranogwr wedi gadael y gwasanaeth ac mae eu ffeil wedi'i chau. Hefyd, cyflwynir tystiolaeth astudiaethau achos ansoddol cyd-destunol ar yr heriau a'r hwyluswyr o ran bodloni targedau a dangos tystiolaeth o dargedau.
- 5.2 Mae ail ran y bennod yn cyflwyno adroddiadau cyfranogwyr am gyfraniad y gwasanaeth at gyflawni'r 'deilliannau meddal' sydd wedi'u cefnogi wrth symud ymlaen tuag at gyflogaeth.
- 5.3 Er gwaetha'r canfyddiad bod deilliannau wedi'u cyflawni'n llai aml oherwydd rheoliadau COVID-19, mae data'r Wybodaeth Fonitro yn dangos mai gweddol gyfyngedig yr ymddengys y bu effaith y pandemig. Roedd deilliannau a adroddwyd wedi parhau'n weddol sefydlog dros gyfnod y pandemig, ac i rai, fe wnaeth deilliannau adfer i lefel uwch ar ôl diwedd y rheoliadau.
- 5.4 Fodd bynnag, mae effaith lawn COVID-19 ar ddeilliannau yn anodd ei phennu. Nid yw data'r Wybodaeth Fonitro sydd ar gael yn cynnwys y dyddiad y cyflawnwyd deilliannau. Felly, mae'r unig gymhariaeth gywir y gellir ei defnyddio rhwng y rheiny a ddechreuodd ac a orffennodd cyn i'r rheoliadau ddechrau, y rheiny a ddechreuodd ac a orffennodd yn ystod y rheoliadau, a'r rheiny a ddechreuodd ac a orffennodd ar ôl diwedd y rheoliadau (mewn italig yn Nhabl 5.1). O ganlyniad, nid ydym yn gallu canfod effaith y pandemig ar y cyfranogwyr hynny yr oedd eu hamser ar y rhaglen yn croesi'r cyfnodau hyn. Cyflwynir y canfyddiadau isod yn Nhabl 5.1. Mae 'Cyn-COVID' yn cyfeirio at yr holl ddyddiadau cyn y cyfnod clo cyntaf ar 20 Mawrth 2020. Mae 'Yn ystod COVID' yn cyfeirio at y cyfnod rhwng 20 Mawrth 2020 a 6 Awst 2021, sef y cyfnod pan oedd mesurau llymach ar waith ledled Cymru. Mae 'Ôl-COVID' yn cyfeirio at yr holl ddyddiadau ar ôl diwedd y mesurau hyn.

Tabl 5.1: Deilliannau a gofnodwyd yn seiliedig ar ba bryd y gwnaeth cyfranogwyr ddechrau a gorffen y rhaglen.

Dechrau	Gorffen	N=	Ennill Cymhwyster neu Dystysgrif Berthnasol i Waith	Mynd i Mewn i Gyflogaeth	Chwilio am Swydd (Economaidd Anweithgar)	Cwblhau Profiad Gwaith neu Wirfoddoli	Mynd i mewn i Addysg neu Hyfforddiant (16-24)
Cyn-COVID	Pawb	12,764	23%	10%	11%	12%	4%^y
	<u>Cyn-COVID</u>	<u>10,067</u>	<u>20%</u>	<u>10%</u>	<u>10%</u>	<u>10%</u>	<u>4%</u>
	Yn ystod COVID	1,963	37%	12%	16%	22%	5%
	Ôl-COVID	373	30%	10%	17%	17%	1%
	Yn dal ar y rhaglen	361	8%	3%	2%	6%	0%
Yn ystod COVID	Pawb	3,529	16%	11%	9%	9%	4%
	<u>Yn ystod COVID</u>	<u>2,087</u>	<u>16%</u>	<u>11%</u>	<u>9%</u>	<u>8%</u>	<u>4%</u>
	Ôl-COVID	928	20%	14%	13%	11%	6%
	Yn dal ar y rhaglen	514	6%	4%	4%	4%	0%
Ôl-COVID	Pawb	1,807	6%	4%	3%	4%	1%
	<u>Ôl-COVID</u>	<u>826</u>	<u>12%</u>	<u>8%</u>	<u>6%</u>	<u>9%</u>	<u>3%</u>
	Yn dal ar y rhaglen	981	2%	1%	0%	0%	0%
	Cyfanswm	18,100	20%	10%	10%	10%	4%

Ffynhonnell: Data'r Wybodaeth Fentora, Mai 2022. Sylwer: Mae'r holl gategoriâu amser yn annibynnol ar ei gilydd.

Mae'r holl gategoriâu Deilliannau yn cynnwys yr holl gyfranogwyr a oedd yn gymwys ar gyfer y deilliannau. Mae Cyn-COVID yn cyfeirio at yr holl ddyddiadau cyn y cyfnod clo cyntaf ar 20 Mawrth 2020. Mae Yn ystod COVID yn cyfeirio at y cyfnod rhwng 20 Mawrth 2020 a 6 Awst 2021, sef y cyfnod pan oedd mesurau llymach ar waith ledled Cymru. Mae Ôl-COVID yn cyfeirio at yr holl ddyddiadau ar ôl diwedd y mesurau hyn. Grwpiau cymaradwy yw'r meysydd graddliwiedig. Mae'r canrannau a gyflwynir ar gyfer yr holl gyfranogwyr sy'n gymwys ar gyfer y targedau penodol.

5.5 At hynny, ychydig o amrywio oedd o ran cyflawni deilliannau yn ôl:

- Pa bryd y dechreuodd cyfranogwyr y rhaglen.
- Pa bryd y gadawodd cyfranogwyr y rhaglen.
- P'un a oedd y cyfranogwr yn ymadawr cynnar.
- Ardal weithredol.
- Categori'r cyfranogwr.
- Statws cyflogaeth wrth ddechrau'r rhaglen.

- Rhywedd.
- Lefel cymwysterau.

Cyfeirir yn y testun at amrywiadau arwyddocaol yn ôl y croes-dabliadau hyn.

5.6 Cyflwynir cyflawniad y targedau, yn ôl data Gwybodaeth Fonitro Mai 2022, isod yn Nhablau 5.2 a 5.3. Nid yw'r deilliannau a gyflawnwyd yn annibynnol ar ei gilydd, a gallai'r darparwyr hawlio amryfal ddeilliannau gan un cyfranogwr. At hynny, mae targedau wedi'u diwygio i adlewyrchu'r ffaith fod y data'n berthnasol i fis Mai 2022, nid diwedd y rhaglen.

Tabl 5.2 Deilliannau prosiect y grŵp oedran 16–24

Gorllewin Cymru a'r Cymoedd 16-24	Ennill Cymwysterau gan gynnwys tystysgrifau sy'n gysylltiedig â gwaith	Mynd i mewn i Addysg neu hyfforddiant	Mynd i Mewn i Gyflogaeth	Cwblhau Profiad Gwaith neu wirfoddoli
Targed	442	295	442	514
Cyflawnwyd	588*	121	300	317
Canran a Gyflawnwyd	133%	41%	68%	62%

Dwyrain Cymru 16-24	Ennill Cymwysterau gan gynnwys tystysgrifau sy'n gysylltiedig â gwaith	Mynd i mewn i Addysg neu hyfforddiant	Mynd i Mewn i Gyflogaeth	Cwblhau Profiad Gwaith neu wirfoddoli
Targed	223	154	233	262
Cyflawnwyd	256*	32	180	123
Canran a Gyflawnwyd	115%	21%	77%	47%

*Er nad yw tystysgrifau sy'n berthnasol i waith yn darged WEFO ffurfiol ar gyfer y grŵp oedran 16-24, mae'r cyflawniad a gofnodwyd yn cynnwys 345 o dystysgrifau yn gysylltiedig â gwaith a gyflawnwyd yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, ac 111 yn Dwyrain Cymru. Mae'r rhain wedi'u cynnwys gan eu bod yn cael eu gweld fel ymyrraeth werthfawr i gynorthwyo taith gyflogaeth y cyfranogwr.

Tabl 5.3 Deilliannau prosiect y grŵp 25 oed a hŷn

Gorllewin Cymru a'r Cymoedd 25+	Ennill Cymwysterau gan gynnwys tystysgrifau sy'n gysylltiedig â gwaith	Mynd i Mewn i Gyflogaeth	Chwilio am Swydd (Ar Gyfer Cyfranogwyr Economaidd Anweithgar)	Cwblhau Profiad Gwaith neu wirfoddoli
Targed	1,677	1,398	671	1,584
Cyflawnwyd	1,914	762	676	1,054
Canran a Gyflawnwyd	114%	55%	101%	67%

Dwyrain Cymru 25+	Ennill Cymwysterau gan gynnwys tystysgrifau sy'n gysylltiedig â gwaith	Mynd i Mewn i Gyflogaeth	Chwilio am Swydd (Ar Gyfer Cyfranogwyr Economaidd Anweithgar)	Cwblhau Profiad Gwaith neu wirfoddoli
Targed	685	685	325	822
Cyflawnwyd	791	488	336	399
Canran a Gyflawnwyd	115%	71%	103%	49%

Mynd ati i chwilio am swydd

- 5.7 Ar gyfer contractau'r rhai 25 oed a hŷn, y targed ar gyfer cyfranogwyr economaidd anweithgar a oedd yn chwilio am swydd ar ôl gadael y rhaglen oedd 671 o gyfranogwyr yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, a 325 yn Nwyrain Cymru. Llwyddodd y ddwy ardal weithredol i ragori ar y targed hwn, gan gyflawni 101 y cant a 103 y cant yn y drefn honno, ym mis Mai 2022.
- 5.8 Gwelodd y categorïau 16-24 gyfran uchel o gyfranogwyr yn chwilio am swydd hefyd ar ôl gadael y rhaglen, er nad oedd hyn yn darged ffurfiol ar gyfer y grŵp oedran hwn. Yn Nwyrain Cymru, roedd 20 y cant yn chwilio am swydd. Yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, y gyfran oedd 17 y cant.
- 5.9 Yn yr holl ardaloedd, nid yw'n ymddangos bod rheoliadau COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar chwilio am swyddi. Fe wnaeth cyfran y cyfranogwyr a oedd yn chwilio am swydd ostwng un y cant yn unig ar gyfer y rheiny a ddechreuodd ac a orffennodd y rhaglen yn ystod rheoliadau llymaf y pandemig (9 y cant), o gymharu â'r rheiny a ddechreuodd cyn dechrau'r rheoliadau (10 y cant). Fodd bynnag, 6 y cant o'r cyfranogwyr hynny a orffennodd ar ôl mis Gorffennaf 2021 oedd yn chwilio am swydd, sef gostyngiad o 4 y cant o gymharu â'r lefelau cyn y pandemig.

Ennill cymwysterau

- 5.10 Mae'r deilliant 'cymwysterau wrth ymadael' yn ymwneud â chyfranogwyr yn ennill cymhwyster FfCChC o fewn pedair wythnos o ymadael (gyda'r lefel cymhwyster uchaf yn cael ei hadrodd). Mae 'Ardystiadau sy'n berthnasol i waith' yn unedau sy'n gweithio tuag at gymhwyster llawn neu hyfforddiant anachrededig sy'n angenrheidiol ar gyfer gwaith e.e., cerdyn CSCS neu dystysgrif hylendid bwyd wedi'i chyflawni o fewn pedair wythnos o ymadael. Y targedau ar gyfer ardaloedd y rhaglen oedd cyfranogwyr naill ai'n ennill cymwysterau neu ardystiad perthnasol i waith. Er bod rhai cyfranogwyr wedi cyflawni'r ddau, dim ond un deilliant y gallai darparwyr hawlio ar ei gyfer, ac adlewyrchir hyn yn y ffigurau a adroddwyd.

- 5.11 Ar gyfer y contract 25 oed a hŷn, mae'r targed ar gyfer y deiliant hwn wedi'i osod ar 1677 ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, a 685 ar gyfer Dwyrain Cymru. Mae'r targed hefyd wedi'i osod ar 223 ar gyfer y contract 16-24 yn Nwyrain Cymru a 442 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Ar draws holl ardaloedd y rhaglen, rhagorwyd ar y targedau hyn gan 15 y cant o leiaf. Gwelodd Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ragori 33 y cant ar eu targed 16-24 oed, tra rhagorwyd 15 y cant ar eu targed yn y ddau contract yn Nwyrain Cymru. Fe wnaeth contractau 25 oed a hŷn Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ragori ar eu targed gan 14 y cant ar gyfer ennill cymwysterau.
- 5.12 O fewn y deilliannau hyn, roedd rhywfaint o amrywio o ran y math o gymhwyster a enillwyd. Ar draws yr holl ardaloedd, fe wnaeth 15 y cant o gyfranogwyr ennill tystysgrif sy'n berthnasol i waith o gymharu â 9 y cant yn ennill cymhwyster. O'r rheiny a enillodd gymhwyster, fe wnaeth 62 y cant ennill FfCChC Lefel 1, fe wnaeth 35 y cant ennill cymhwyster Lefel 2, ac enillodd pedwar y cant gymhwyster Lefel 3.
- 5.13 Gwelodd y pandemig COVID-19 ostyngiad o bedwar y cant yng nghyfran y cyfranogwyr yn ennill cymhwyster ffurfiol rhwng FfCChC Lefelau 1 a 3 neu dystysgrif yn berthnasol i waith, o 20 y cant i 16 y cant. O'r cyfranogwyr hynny a ddechreuodd ac a orffennodd ar ôl i fesurau'r pandemig gael eu codi, fe wnaeth 12 y cant ennill tystysgrif berthnasol i waith.
- 5.14 Mae ffactorau hwyluso'n cynnwys y ffaith bod y Gwasanaeth Di-waith yn gallu ariannu cyrsiau academaidd a galwedigaethol ac mae darparwyr yn sicrhau bod cyfranogwyr yn barod ar gyfer hyfforddiant drwy'r gofyniad eu bod yn ymgymryd â phrofion paratoi ac yn eu pasio. Adroddodd mentoriaid cymheiriaid eu bod yn meddwl bod mwy o gyrsiau wedi'u cwblhau yn ystod y pandemig gan fod mwy o amser gan bobl gartref i'w cwblhau.

Mynd i Mewn i Gyflogaeth

- 5.15 Y targed ar gyfer cyflogaeth wrth adael y gwasanaeth yw 15 y cant ar draws rhaglen gyfan y Gwasanaeth Di-waith. Yn y contractau 25 oed a hŷn, y ffigurau targed ar gyfer Mai 2022 oedd 1398 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, a 685 yn Nwyrain Cymru. Ar gyfer y contractau 16-24, y targedau oedd 442 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 233 yn Nwyrain Cymru. Mae'r gwasanaeth yn cynorthwyo cyfranogwyr i ganfod ac ymgeisio am gyfleoedd swyddi, ond gall cyfranogwyr ddod o hyd i'w cyflogaeth eu hunain hefyd wrth gael eu cefnogi gan y Gwasanaeth Di-waith.

- 5.16 Roedd cyflawniadau yn erbyn targedau yn amrywio'n sylweddol ar draws ardaloedd y rhaglen, gyda'r holl ardaloedd islaw eu targedau ym mis Mai 2022. Ar gyfer y contract 16-24, yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, cyflawnwyd 68 y cant o'r targed. Yn Nwyrain Cymru, cyflawnwyd 77 y cant o'r targed ym mis Mai 2022. Ar gyfer y contractau 25 oed a hŷn, roedd cyflawniad uwch: 55 y cant yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd; a 71 y cant yn Nwyrain Cymru.
- 5.17 Felly, ar draws y rhaglen yn gyffredinol, roedd 10 y cant o gyfranogwyr wedi mynd i mewn i gyflogaeth erbyn mis Mai 2022 o darged cyffredinol o 15 y cant. Mae'r ffigur hwn yn disgyn i 2 y cant o gyfranogwyr mewn cyflogaeth gynaledig chwe mis ar ôl gadael y gwasanaeth. Mae hyn yn awgrymu, er y gallai cyfranogwyr fod wedi llwyddo i gael cyflogaeth, bod materion sy'n parhau yn ymwneud ag iechyd meddwl a/neu gamddefnyddio sylweddau yn ffactor parhaus i gynnal y gyflogaeth honno'n ymarferol.
- 5.18 Fodd bynnag, dylid nodi bod prosiectau wedi adrodd am heriau o ran cynnal cyswllt â chyfranogwyr wedi iddynt adael y gwasanaeth gan eu bod yn llai tueddol o gadw mewn cysylltiad neu mae rhifau ffôn symudol yn newid. Hyd yn oed lle'r oedd modd cysylltu â nhw, nodwyd "*nid yw pobl eisiau rhannu datganiadau cyfrifon banc neu fanylion cyflog*". Mae hyn yn golygu na fu'n bosibl bob amser i ddangos tystiolaeth o ddeilliannau cyflogaeth gynaledig, ac efallai nad yw'r data yn adlewyrchu'r hyn sydd wedi'i gyflawni'n ymarferol. Nid oes modd amcangyfrif maint y bwlch hwn yn y dystiolaeth.
- 5.19 Roedd rhywfaint o amrywio yn ôl categorïau cyfranogwyr. I'r rheiny ar draws y ddau grŵp oedran â rhwystrau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, dim ond 7 y cant aeth i mewn i gyflogaeth. I'r rheiny â phroblemau iechyd meddwl yn unig, roedd y gyfran yn uwch, sef 10 y cant. Aeth y rheiny â hanes o gamddefnyddio sylweddau i mewn i gyflogaeth yn fwy rheolaidd, sef 13 y cant.
- 5.20 Cododd arweinwyr rhaglen a mentoriaid cymheiriaid nifer o heriau o ran bodloni'r targedau cyflogaeth a bennwyd ar gyfer y rhaglen. Fel y trafodwyd yn Adran 4, mae effaith y pandemig ar les meddwl wedi arwain at y gwasanaeth yn derbyn ac yn gweithio gyda phobl sydd ymhellach i ffwrdd o'r farchnad lafur ac y mae angen cymorth dwysach arnynt nag yn flaenorol. Yn ogystal, mae'r pandemig wedi arwain rhai pobl i deimlo y gallent fod mewn sefyllfa ariannol waeth nag o'r blaen ac mae arnynt ofn mynd i mewn i gyflogaeth ar adeg pan fo ansicrwydd o ran gwaith. Mae'r

gwasanaeth hefyd yn cynorthwyo troseddwr Categori Un y mae'n eithriadol o heriol iddynt ddod o hyd i gyflogaeth.

- 5.21 Yn ôl data'r Wybodaeth Fonitro, ni chafodd COVID-19 effaith sylweddol ar gyfran y cyfranogwyr a aeth i mewn i gyflogaeth. Aeth deg y cant o gyfranogwyr a ddechreuodd ac a orffennodd y rhaglen cyn-COVID i mewn i gyflogaeth, o gymharu ag 11 y cant a ddechreuodd ac a orffennodd y rhaglen yn ystod rheoliadau COVID-19. Mae hwn yn gostwng i wyth y cant wedyn ar gyfer cyfranogwyr a ddechreuodd ac a orffennodd y rhaglen ar ôl mesurau COVID.
- 5.22 Adroddodd rhai darparwyr y Gwasanaeth Di-waith nad oedd arbenigwyr cyflogaeth ganddynt mewn swydd mwyach, gan adael y dasg o ymgysylltu â chyflogwyr i'r mentoriaid cymheiriaid. Awgrymont y byddai ailgyflwyno rôl benodol ymgysylltu â chyflogwyr yn helpu datblygu cysylltiadau ar gyfer cyfleoedd gwaith yn eu hardaloedd ac ar draws y rhanbarth yn fwy cyffredinol. Roedd eisiau ymgysylltiad mwy uniongyrchol gyda chyflogwyr o feintiau a graddfa wahanol, gan gynnwys cymorth i gyflogwyr sy'n derbyn cleientiaid gan fod *'cael ymrwymiad gan gyflogwyr i weithio gyda phobl ag anghenion cymhleth yn heriol'*. Nodwyd, er bod mentoriaid cymheiriaid wedi ymgysylltu â busnesau bach a chanolig lleol, nad yw'r sgiliau a'r profiad ganddynt i ymgysylltu â chyflogwyr mwy neu gwmnïau rhyngwladol mawr sy'n gallu cynnig cyfleoedd cyflogaeth mwy sylweddol.

"Mae angen i ni ddatblygu cronfa o gyflogwyr y gallwn ni gyfeirio ein cleientiaid atynt pan fyddant yn barod. Mae cyflogaeth yn anodd, mae gorbryder ynglŷn â mynd i'r gwaith yn amlwg, a cheir diffyg cyfle hefyd. Mae cyflogwyr yn teimlo ychydig yn bryderus ynglŷn â sut i ddelio â chleientiaid â materion iechyd meddwl a defnyddio sylweddau...Profiad gwaith yw'r cam cyntaf, ac mae'n dda i'w roi ar CV. Mae canolbwyntio ar hyn yn fwy realistig i lawer o gleientiaid, ac mae cyflogwyr yn cael cyfle i brofi'r dŵr hefyd." (Arweinydd rhaglen)

Un llwybr cyffredin i mewn i gyflogaeth yw gwirfoddoli fel mentor cymheiriaid gyda darparwyr y Gwasanaeth Di-waith, ac yna symud ymlaen i swydd ar gyflog.

Mynd i mewn i addysg neu hyfforddiant (grŵp oedran 16-24)

- 5.23 Mae'r targed ar gyfer mynd i mewn i addysg neu hyfforddiant wrth adael y gwasanaeth wedi'i osod ar 295 o gyfranogwyr yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, a 154 o gyfranogwyr yn Nwyrain Cymru. Mae'n amlwg bod y rhaglen wedi cael

anhawster bodloni'r targed hwn, gyda chyfradd lwyddo o 41 y cant o gyfranogwyr yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, a 21 y cant yn Nwyrain Cymru. Roedd hyn yn wir ar gyfer cyfranogwyr a ddechreuodd cyn, yn ystod, ac ar ôl mesurau'r pandemig.

- 5.24 Yn yr un modd â rhaglenni cymorth cyflogaeth tebyg, adroddodd rhanddeiliaid fod mwy o ddiddordeb gan gyfranogwyr i fynd i mewn i gyflogaeth nag addysg neu hyfforddiant, yn enwedig gan iddynt gael profiadau negyddol cyffredin o addysg yn y gorffennol.⁸ Arhosodd cyfran y cyfranogwyr a gyflawnodd y targed hwn yn sefydlog cyn, yn ystod, ac ar ôl mesurau'r pandemig.

Cwblhau profiad gwaith neu wirfoddoli

- 5.25 Gosodwyd y targed ar gyfer cwblhau profiad gwaith neu leoliad gwirfoddoli ar 514 ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, a 262 ar gyfer Dwyrain Cymru, ar gyfer y grŵp 25 oed a hŷn. Mae'r targed wedi'i osod hefyd ar 18 y cant ar gyfer y contractau 16-24 yn nwy ardal Cronfa Gymdeithasol Ewrop, gyda thargedau o 1584 ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, ac 822 ar gyfer Dwyrain Cymru.
- 5.26 Erbyn Mai 2022, roedd 10 y cant o gyfranogwyr wedi cwblhau lleoliad profiad gwaith neu gyfle gwirfoddoli, gyda dim ond 10 y cant o'r grŵp hwn wedi cwblhau lleoliad profiad gwaith. Yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, y gyfran a oedd wedi cwblhau profiad gwaith neu gyfle gwirfoddoli oedd 11 y cant ar gyfer y grwpiau 16-24 a 25 oed a hyn. Yn Nwyrain Cymru, y gyfran oedd wyth y cant ar gyfer y rhai 16-24 oed a naw y cant ar gyfer y grŵp 25 oed a hŷn.
- 5.27 Adroddwyd am nifer o heriau o ran sicrhau lleoliadau profiad gwaith, a waethygydd gan gyfnodau clo a mesurau diogelu eraill a gyflwynwyd i fynd i'r afael â'r pandemig COVID-19. Fel uchod, adroddwyd bod cyflogwyr yn betrus i ymgysylltu â phobl â rhwystrau rhag cyflogaeth yn ymwneud ag iechyd meddwl a defnyddio sylweddau, er bod rhai darparwyr yn cynnig offer a chymorth ymwybyddiaeth i alluogi cyflogwyr i dderbyn pobl ar leoliad gwaith. Yn ogystal, adroddodd mentoriaid cymheiriaid ac arweinwyr rhaglen y gallai cyfranogwyr fod yn amharod i ymgymryd â lleoliad gwaith gan *'nad yw unrhyw un am weithio am ddim'*. Nododd cyfweleion hefyd fod llawer o bobl yn ymgymryd â threial un diwrnod, ond nid yw hyn yn gwneud yr 16 o oriau angenrheidiol ar gyfer y taliad yn erbyn y targed hwn. Lle cynhaliwyd lleoliadau

⁸ Gweler, er enghraifft, (2019) [Fair Chance Fund evaluation: final report](#)

gwaith, roedd y rhain yn aml yn gysylltiedig â chwrs hyfforddi, ac fe'u disgrifiwyd fel y *'ffordd orau o gyflawni deiliant lleoliad gwaith.'*

- 5.28 Fodd bynnag, yn ôl data'r Wybodaeth Fentora, cafodd rheoliadau COVID-19 effaith fach ar gyfranogwyr a oedd yn cwblhau profiad gwaith neu gyfleoedd gwirfoddoli. Fe wnaeth cyfran y cyfranogwyr a oedd yn ymgymryd â phrofiad gwaith neu wirfoddoli ostwng ychydig o dan ddau bwynt canran ar gyfer cyfranogwyr a ddechreuodd ac a orffennodd yn ystod y pandemig (wyth y cant) o gymharu â'r rheiny a orffennodd cyn y pandemig (10 y cant). Fe wnaeth ychydig dan naw y cant o'r rheiny a ddechreuodd ac a orffennodd y rhaglen ar ôl i reoliadau'r pandemig ddod i ben gwblhau lleoliad profiad gwaith neu brofiad gwirfoddoli. Ymhellach, nid oedd unrhyw amrywio sylweddol rhwng cyfranogwyr â rhwystrau iechyd meddwl a hanes o gamddefnyddio sylweddau.
- 5.29 Roedd darparwyr wedi bod yn fwy llwyddiannus o ran sicrhau lleoliadau gwirfoddoli, a disgrifiwyd y rhain fel agwedd bwysicach o lawer ar y gwasanaeth, yn enwedig ar gyfer y grŵp 25 oed a hŷn. Roedd un darparwr wedi creu swydd Cydlynedd Lles a Gwirfoddoli, a lwyddodd, gyda lledaeniad COVID-19, i *'werthu'r syniad o wirfoddoli o gartref.'* Adroddwyd bod hyn wedi gweithio'n dda gyda phobl â phroblemau iechyd meddwl, ac yn benodol pobl yn dioddef o agoraffobia neu orbryder cymdeithasol.
- 5.30 Roedd y cyfweleion cyfranogol yn frwdfrydig yn gyffredinol ynglŷn â gwirfoddoli, gan ei ddisgrifio fel ffordd fuddiol o fynd yn ôl yn raddol i amgylchedd gweithio heb deimlo eu bod yn cael eu llethu, ond *'yn hyderus yn mynd i weithle ond heb unrhyw bwysau gan fy mod yn gwirfoddoli'*. Gwirfoddoli i'r Gwasanaeth Di-waith oedd yr opsiwn y soniwyd amdano amlaf, ac fe'i gwelwyd fel llwybr cadarnhaol i gyflogaeth gyda'r gwasanaeth yn y dyfodol. Roedd y cyfle i weithio ochr yn ochr â mentoriaid cymheiriaid â phrofiad bywyd yn cael ei werthfawrogi'n arbennig:

"Mae [Enw'r mentor cymheiriaid] wedi bod yn hollol wych, mae gwirfoddoli gydag ef wir wedi fy helpu i fynd i mewn i amgylchedd gwaith." (Cyfranogwr)

Galluogi cyfranogwyr i oresgyn rhwystrau cymhleth

- 5.31 O ystyried bod lefelau angen a chymhlethdod wedi codi ers dechrau COVID-19, nid oedd yn syndod bod y cyfweleion rhanddeiliaid wedi disgrifio bod cyflawni deilliannau meddal hyd yn oed yn bwysicach na'r sefyllfa cyn y pandemig. Adroddwyd bod gan lawer o ddefnyddwyr gwasanaeth ffordd bell i fynd cyn eu bod

yn barod am waith, a disgrifiwyd bod camau bach, fel mynd allan am y tro cyntaf mewn misoedd, yn bwysig iawn.

“Mae’n rhaid i chi gael y stwff lles ar waith...y stwff meddal yw crynswth y gwaith a’r prif gyflawniad ar gyfer pobl” (Mentor cymheiriaid)

- 5.32 Atseiniwyd hyn gan y cyfweleion cyfranogol a adroddodd am welliannau sylweddol mewn iechyd meddwl, lles cyffredinol, a hyder. Adroddodd cyfweleion nad oeddent wedi gallu gadael y tŷ yn flaenorol bod yr hyder ganddynt i wneud hynny bellach, ac adroddodd rhai eraill bod strwythur gwell ganddynt nawr, ac ymdeimlad o ddiben mewn bywyd.

Llwyddodd [Enw’r mentor cymheiriaid] i ’nghael i allan o’r tŷ ac ysgogodd y broses o newid llawer o bethau yn fy mywyd.” (Cyfranogwr)

- 5.33 Roedd goresgyn ynysigrwydd cymdeithasol yn aml yn mynd law yn llaw ag ymdeimlad adferedig o ddiben a hyder yn sgil treulio mwy o amser gyda phobl eraill yn y gymuned, cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, grwpiau cymorth neu leoliadau gwirfoddoli. Roedd cymryd camau bach, fel mynd ar drafnidiaeth gyhoeddus, neu fynd i fannau cyhoeddus i gyfarfod eu mentoriaid cymheiriaid, yn bwysig i hybu hyder ac ymdeimlad o weithrediad.

“Roeddwn i’n llanastr llwyr ac fe wnaeth [enw’r mentor cymheiriaid] wir fy helpu i deimlo bod gen i obaith i’r dyfodol yn lle teimlo’n orbryderus ac yn ddigalon.” (Cyfranogwr)

- 5.34 Fe wnaeth hyd yn oed cyfweleion â materion iechyd meddwl cymhleth a pharhaus adrodd am welliannau; er enghraifft, llwyddwyd i oresgyn teimladau hunanladdol a oedd ganddynt yn gynharach neu nid oeddent nhw’n teimlo iselder mor ddifrifol mwyach. Egluront nad oedd eu mentoriaid cymheiriaid wedi ceisio cynnig cwnsela, ond eu bod yn syml wedi dangos dealltwriaeth ac wedi helpu creu strwythur a diben.

“Ni fyddwn i yma [heb y Gwasanaeth Di-waith]. Gall straen llorio pobl yn llwyr. Mae’n rhyfeddol sut mae cael rhywun i sgwrsio â nhw yn helpu.” (Cyfranogwr)

6. Casgliadau ac argymhellion

- 6.1 Mae'r bennod olaf hon yn cyflwyno casgliadau a dynnwyd o'r ddwy brif ffynhonnell dystiolaeth (gwaith maes ansoddol yn y saith o Lotiau a gwybodaeth monitro rhaglenni), gyda phwyntiau dysgu allweddol y gellid eu cymhwyso i ddatblygu a darparu'r Gwasanaeth Di-waith yn y dyfodol.

Recriwtio Cyfranogwyr

- 6.2 Mae'r Gwasanaeth Di-waith wedi bod yn llwyddiannus o ran recriwtio cyfranogwyr, yn enwedig o ystyried amgylchiadau heriol y pandemig COVID-19. Mae'r targedau recriwtio ar gyfer pob ardal weithredol i gyd wedi'u cyflawni bron. Roedd y rhaniad rhwng y rhai economaidd anweithgar (57 y cant) a'r di-waith hirdymor (43 y cant) yn y grŵp 25 oed a hŷn yn agos at y disgwyliadau hefyd.
- 6.3 Y llwybr atgyfeirio mwyaf cyffredin at y gwasanaeth yw drwy asiantaethau allanol, y Ganolfan Byd Gwaith fel arfer. Mewn ardaloedd lle mae darparwr y Gwasanaeth Di-waith yn arbenigo mewn cymorth camddefnyddio sylweddau, roedd cyfranogwyr a oedd wedi bod ar raglenni ymadfer penodol wedi'u cysylltu â'r gwasanaeth gan weithwyr allweddol.
- 6.4 Roedd cyfranogwyr wedi cael eu denu at y Gwasanaeth Di-waith yn y lle cyntaf i gael cymorth â heriau iechyd a lles, ac roedd cael cyflogaeth a hyfforddiant yn gysylltiedig â gwaith yn rheswm llai cyffredin dros ymuno â'r rhaglen.

Ffactorau allweddol sy'n effeithio ar recriwtio cyfranogwyr

- 6.5 Mae data cyfweiliadau a dadansoddiad o ddata'r Wybodaeth Fonitro yn dangos bod COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar recriwtio cyfranogwyr newydd i'r rhaglen. Heb fod yn syndod, yn ystod y cyfnod pan gyflwynwyd y cyfnodau clo cenedlaethol cyntaf (blwyddyn pedwar, chwarter pedwar), gwelwyd gostyngiad sylweddol yn nifer y cyfranogwyr a recriwtiwyd i'r rhaglen. Y rheswm pennaf am hyn oedd diffyg presenoldeb gweledol mentoriaid cymheiriaid mewn lleoliadau cymunedol ac mewn sefydliadau atgyfeirio, a oedd wedi bod yn bwysig cyn y pandemig. Yn amlwg, nid oedd darpar gyfranogwyr yn mynychu gwasanaethau fel o'r blaen ychwaith, ac felly nid oedd modd eu cyrraedd.
- 6.6 Fe wnaeth trosiant uchel mentoriaid cymheiriaid a diffyg staff mewn sefydliadau atgyfeirio gyfrannu at y gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau hefyd oherwydd bod cysylltiadau blaenorol rhwng staff wedi'u torri. Wrth i fesurau diogelu'r pandemig

gael eu diddymu, mae rhai darparwyr wedi bod yn amharod i barhau i recriwtio cyfranogwyr gan ddisgwyl y bydd y gwasanaeth yn dirwyn i ben pan fyddai'r cyllid yn gorffen.

- 6.7 Roedd arweinwyr darparwyr a mentoriaid cymheiriaid o'r farn fod cyfran dda o'r atgyfeiriadau yn amhriodol oherwydd bod anghenion lefel uchel gan y cyfranogwyr ac roedd ganddynt broblemau iechyd meddwl cymhleth, a'u bod, felly, ymhell o fod yn gallu mynd i mewn i gyflogaeth. Mae'n debygol bod hyn yn gysylltiedig ag amodau'r pandemig lle'r oedd pobl yn wynebu heriau sylweddol ac roedd gwasanaethau yn llai hygyrch na'r arfer. Fodd bynnag, roedd darparwyr yn amharod i droi atgyfeiriadau i ffwrdd.

Ymadawyr cynnar a chynnal ymgysylltiad

- 6.8 Mae cyfran fawr o gyfranogwyr (46 y cant) wedi gadael y rhaglen yn gynnar. Roedd amrywio sylweddol yng nghyfran y rhai a adawodd yn gynnar rhwng yr ardaloedd gweithredol. Gwelodd Gorllewin Cymru a'r Cymoedd gyfran uwch o ymadawyr ar draws yr holl categorïau (58 y cant) na Dwyrain Cymru (44 y cant). Mae'n debygol mai'r prif resymau dros ymadael yn gynnar dros gyfnod y pandemig oedd problemau o ran ymgysylltu â llwyfannau ar-lein, llai o gymhelliant i ddod o hyd i waith, a disgwyliaid heb eu bodloni o ran anghenion penodol, fel darparu nwyddau a gwasanaethau a mynediad i gyrsiau hyfforddiant.

Nodweddion cyfranogwyr

- 6.9 O ran yr heriau a wynebwyd gan gyfranogwyr, problemau iechyd meddwl oedd y brif ystyriaeth ar gyfer cyfranogwyr; roedd dros hanner wedi'u cofnodi yn y categori hwn. Roedd cyfran is o lawer (10 y cant) wedi'u categoreiddio fel rhai â phroblemau camddefnyddio sylweddau yn unig. Roedd y gweddill yn dioddef o broblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.
- 6.10 Roedd gan dros hanner y cyfranogwyr gymwysterau FfCChC ar Lefel 1 neu is, a gallai hynny fod wedi creu rhwystr sylweddol rhag cael cyflogaeth, ac mae'n debygol o olygu bod galw mawr am hyfforddiant a chymwysterau.

Gweithredu'r Gwasanaeth Di-waith

Recriwtio a chadw mentoriaid cymheiriaid

- 6.11 Un her allweddol i'r Gwasanaeth Di-waith fu recriwtio a chadw mentoriaid cymheiriaid, sydd wedi arwain at drosiant uchel a diffyg capasiti ar brydiau.

Adroddwyd bod recriwtio i'r rôl mentor cymheiriaid wedi bod yn anoddach yn ystod cyfyngiadau COVID gan nad oedd gan wasanaethau yr un lefel mynediad at bobl a oedd yn ymadfer ac yn gwneud yn dda, sydd wedi'u recriwtio i'r rôl mentor cymheiriaid yn draddodiadol. Nodwyd yn gyson fod cyflogau isel yn creu her i gadw staff, ond roedd gorlwyth gweinyddol yn ffynhonnell anfodlonrwydd hefyd.

Adroddwyd bod rhai aelodau staff wedi gadael oherwydd heriau wrth ddelio â'u lles emosiynol. Effaith problemau recriwtio a chadw fu llwythi achosion uchel, anghysondeb yn y cymorth a diffyg mentoriaid cymheiriaid profiadol.

- 6.12 Roedd yr hyfforddiant gorfodol cychwynnol ar gyfer mentoriaid cymheiriaid yn cynnwys hyfforddiant Mentora Cymheiriaid Lefel 1 a Lefel 2 yn bennaf, ac roedd enw da iddo yn gyffredinol. Fodd bynnag, roedd diffyg cymhwysio 'yn y byd go iawn' yn yr hyfforddiant a gyflwynwyd ar-lein dros gyfnod y mesurau diogelu yn gysylltiedig â'r pandemig. Roedd enw da i'r hyfforddiant mewn swydd a chysgodi ymhlith mentoriaid cymheiriaid hefyd, er bod cyfyngiadau sylweddol i hynny hefyd yn ystod gweithio o bell. Roedd hyd yr hyfforddiant mewn swydd a'r cysgodi yn amrywio yn ôl darparwr, gyda rhai yn cynnig ychydig ddyddiau'n unig a rhai yn cynnig hyd at chwe wythnos. Teimlai rhai mentoriaid cymheiriaid fod amserlenni byrrach yn annigonol. Roedd mentoriaid cymheiriaid mewn rhai ardaloedd yn elwa o gael hyfforddiant cymharol hirach a mwy systematig yn dilyn y cyfnod hyfforddiant cychwynnol, ac roedd hynny'n ymddangos yn ddull effeithiol o ran ennyn ymrwymiad i'r rôl, a hyder yn y rôl.
- 6.13 Mae meysydd hyfforddiant allweddol a fyddai'n fuddiol yn cynnwys cefnogi problemau iechyd meddwl mwy difrifol a sefyllfaoedd argyfwng, fel risg hunanladdiad, a chynnal ffiniau (h.y. y llinell rhwng cwnsela a mentora).
- 6.14 Mae mentoriaid cymheiriaid yn gwerthfawrogi strwythurau cymorth cryf yn ystod eu gwaith o ddydd i ddydd, ac roedd hyn yn arbennig o bwysig yn ystod cyfnodau o weithio o bell. Roedd cymorth effeithiol yn cynnwys cyfarfodydd tîm rheolaidd, cynigion o gwnsela a goruchwyliaethau rheolaidd un i un.

Effaith COVID-19 ar les defnyddwyr gwasanaeth

- 6.15 Yng nghyd-destun y pandemig, roedd cyfranogwyr yn aml yn dangos anghenion cymharol lefel uchel a chymhleth yn gysylltiedig ag iechyd meddwl, gan gynnwys gorbryder cymdeithasol, ynysigrwydd cymdeithasol, ofn gadael y tŷ a defnyddio sylweddau, i'r graddau bod cyfran fawr o gyfranogwyr ymhell o fod yn gallu mynd i

mewn i gyflogaeth ac y gallai fod angen cymorth tymor hwy arnynt i fynd i'r afael â rhwystrau cymhleth. O ganlyniad, roedd pwyslais cymorth yn gysylltiedig â 'lles' yn hytrach na'n uniongyrchol gysylltiedig â chyflogaeth.

Mynediad at gymorth allanol

- 6.16 Roedd atgyfeirwyr yn cydnabod bod y Gwasanaeth Di-waith yn llenwi bylchau sylweddol mewn cymorth iechyd meddwl yn gysylltiedig â chyflogaeth, yn enwedig ar gyfer y grŵp oedran 25 a hŷn. Mae delio â materion iechyd meddwl cymhleth yn mynnu cymorth arbenigol, gyda'r cyfweleion yn adrodd bod hyn wedi mynd yn fwyfwy heriol ers dechrau'r pandemig. Rhoddodd hyn bwysau ychwanegol ar y Gwasanaeth Di-waith, ac yn aml roedd mentoriaid cymheiriaid yn cael eu tynnu i mewn yn broblemus i berthnasoedd o fath therapiwtig.

Y newid at fodolau darparu ar-lein/o bell

- 6.17 Er i'r broses o newid at fodolau darparu ar-lein/o bell greu heriau, un fantais allweddol y newid oedd bod cyfranogwyr â materion yn ymwneud â gorbryder cymdeithasol yn gallu rheoli rhyngweithiadau cymdeithasol yn well, ac nid oedd angen iddynt adael y tŷ os oedd hyn yn rhy heriol iddynt. Roedd cyswllt o bell yn cynnig mwy o hygyrchedd i rai cyfranogwyr hefyd, yn enwedig lle ceir rhwystrau o ran trafndiaeth. Yn y modd hwn, fe wnaeth mentoriaid cymheiriaid ganfod bod ganddynt fwy o opsiynau ar gyfer cyrraedd pobl â lefelau gorbryder uchel.
- 6.18 Canfu mentoriaid cymheiriaid ymateb cymysg i weithgareddau grŵp ar-lein. Roedd amgylcheddau ar-lein yn darparu dulliau rhyngweithio diogel i bobl a oedd yn cael anhawster â gorbryder, ac fe wnaeth ymgysylltu â gweithgareddau grŵp gynyddu, ond mewn rhai ardaloedd, sylwodd mentoriaid cymheiriaid fod ymgysylltu ar-lein wedi lleihau lefel yr ymgysylltiad. Mae hyn yn debygol o ddibynnu ar ansawdd y grwpiau ar-lein a lefel sgiliau digidol a mynediad at dechnolegau.

Arfer effeithiol wrth ddarparu cymorth mentoriaid cymheiriaid

Cynnig cymorth a gweithgareddau lles

- 6.19 Roedd mentoriaid cymheiriaid a chyfranogwyr yn ystyried bod cyswllt cymdeithasol, 'gwirio', a sgysiau ystyrion yn gysylltiedig â lles yn elfennau hanfodol i gynnal lles a symud ymlaen tuag at gyflogaeth ac addysg. Ochr yn ochr â hyn, roedd mentoriaid cymheiriaid yn darparu help yr oedd mawr ei angen gyda thasgau bywyd ymarferol, ac roeddent yn gallu atgyfeirio cyfranogwyr at weithgareddau a chysiau lles

mewnol, yn cwmpasu hyder, deall gorbryder, ymwybyddiaeth o straen, rheoli iechyd meddwl. Roedd gogwydd cymdeithasol i weithgareddau eraill, fel celf a chrefft, cerdded, coginio, ioga, meddylgarwch, chwaraeon, cwisiau, gemau cardiau, a boreau coffi. Diben y gweithgareddau cymdeithasol hyn oedd cael pobl allan o'r tŷ a rhyngweithio â phobl eraill.

Bod â phrofiad bywyd o faterion iechyd meddwl a/neu gamddefnyddio sylweddau

- 6.20 Roedd y ffaith bod gan fentoriaid cymheiriaid brofiad bywyd o faterion iechyd meddwl a/neu gamddefnyddio sylweddau yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan gyfranogwyr. Credir bod y cymorth a roddir yn fwy tebygol o fod yn anfarnol ac yn empathetig. Fodd bynnag, er bod gan fentoriaid cymheiriaid set sgiliau cryf yn deillio o'u profiad bywyd, un her bosibl yw y gallai fod diffyg sgiliau a chymwyseddau technegol a phroffesiynol lefel uwch ganddynt. Nododd arweinwyr darparwyr a mentoriaid cymheiriaid anawsterau wrth gyflawni agweddau gweithdrefnol ac agweddau data'r rôl, fel targedau, asesiadau ac offer mesur. Yng nghyd-destun cyfranogwyr yn dangos anghenion iechyd meddwl cymhleth, lefel uchel dros y pandemig, her arall oedd bod mentoriaid cymheiriaid dan risg o gael eu tynnu i mewn i gynnydd ymyriadau therapiwtig seicolegol, sef rhywbeth nad oeddent yn gymwys ar ei gyfer, ac a oedd yn heriol, o ystyried eu taith ymadfer eu hunain a'u statws lles.

Cynnig cymorth cyflogadwyedd amserol ac effeithiol

- 6.21 Mae amseriad a chydbwysedd cymorth yn gysylltiedig â lles gyda chymorth yn gysylltiedig â chyflogadwyedd yn hanfodol i gynnal ymgysylltiad a chyflawni deilliannau swydd ac addysg tymor hwy. Gall nodi bod cyfranogwr yn barod am waith neu gynnydd gweithgareddau cyflogadwyedd yn rhy gynnar amharu ar eu cynnydd cyffredinol. Roedd mentoriaid cymheiriaid yn elwa o gymorth gan gydweithwyr eraill o ran sefydlu parodrwydd am waith. Ar yr un pryd, nid oedd rhai mentoriaid cymheiriaid yn teimlo'n ddigon cymwys nac yn hyderus i gynnydd cymorth yn gysylltiedig â chyflogadwyedd. Dyma pam y gall rôl arbenigwr cyflogaeth ychwanegu gwerth pendant; gan ddarparu cymorth i gyfranogwyr i chwilio am swydd ac ysgrifennu ceisiadau, a rhyddhau mentoriaid cymheiriaid i ganolbwyntio ar gymorth lles.

Cyfleoedd gwirfoddoli

- 6.22 Mae cyfleoedd gwirfoddoli yn opsiwn gwerthfawr i lawer o gyfranogwyr am eu bod yn aml yn gysylltiedig â'u diddordebau a'u nodau, yn canolbwyntio ar y gymuned, ac yn hyblyg gan ddibynnu ar anghenion cyfranogwyr. Credwyd bod buddion gwirfoddoli yn cynnwys y cyfle i gael profiad o weithio gyda phobl eraill mewn amgylchedd proffesiynol, ailddefnyddio hen sgiliau neu/a dysgu rhai newydd, a fyddai yn eu tro yn cynyddu cyflogadwyedd.

Cynnig cyrsiau byr

- 6.23 Roedd cynnig cyrsiau byr, yn enwedig gyda gogwydd galwedigaethol, yn gweithio'n dda hefyd, gan eu bod yn gam agosach at waith yn aml, neu â'r potensial i arwain yn uniongyrchol at waith. Yr un mor bwysig, roeddent yn cynnal ymgysylltiad cyfranogwyr, yn enwedig drwy'r pandemig. Hefyd, roedd cyrsiau yn rhoi strwythur o ddydd i ddydd i gyfranogwyr, ymdeimlad o ddiben a rhywbeth pleserus i'w wneud.

Cyflawni deilliannau

- 6.24 Ni fodlonwyd targedau deilliannau ar gyfer y cyfranogwyr a oedd yn mynd i mewn i gyflogaeth, yn cwblhau profiad gwaith neu'n gwirfoddoli, ac yn mynd i mewn i hyfforddiant neu addysg. Fodd bynnag, rhagorwyd yn sylweddol ar dargedau ar gyfer ennill cymwysterau neu ardystiad perthnasol i waith. Ymhellach, bodlonwyd y targedau ar gyfer mynd ati i chwilio am swydd.
- 6.25 Ceir tangofnodi o ran y deilliannau a gyflawnwyd, yn enwedig gyda chyflogaeth. Mae hyn yn sgil colli ymgysylltiad â chyfranogwyr pan fyddant yn symud i mewn i gyflogaeth ac oddi ar y rhaglen. At hynny, mae data cyfredol y Wybodaeth Fonitro yn cofnodi'r deilliant diweddaraf a gyflawnwyd pan fydd cyfranogwr yn gadael y rhaglen. O ganlyniad, mae'n aneglur pa ddeilliannau a gyflawnwyd gan gyfranogwyr.
- 6.26 Roedd rhai aelodau staff darparu yn dadlau y dylai targedau fod wedi cael eu haddasu i gyfrif am effaith COVID-19 ar ddarparu'r rhaglen, yn enwedig y targedau cyflogaeth, o ystyried newidiadau i'r marchnadoedd llafur lleol.
- 6.27 Wedi dweud hynny, awgrymodd mentoriaid cymheiriaid fod cofnodi cyfranogwr mewn cyflogaeth chwe mis ar ôl gadael y rhaglen yn anodd, ni waeth pa bryd y cyflawnwyd y deilliant. Teimlent fod y deilliant hwn wedi'i dangofnodi'n ddifrifol.

Effaith COVID-19 ar dargedau

6.28 Mae Tabl 6.1 isod yn dangos na chafodd rheoliadau'r pandemig COVID-19 a rheoliadau cysylltiedig, gan gynnwys cyfnodau clo, effaith mor fawr ar gyflawni deilliannau fel y'i gwelwyd gan fentoriaid cymheiriaid a staff darparu. Fe wnaeth cyflawniad deilliannau leihau ychydig bwyntiau canran dros y cyfnod hwn. Fodd bynnag, cyflawnodd cyfranogwyr a ddechreuodd y rhaglen yn ystod y pandemig ac a orffennodd ar ôl i fesurau diogelu'r pandemig gael eu diddymu gyfran uwch o ddeilliannau na'r rheiny a orffennodd cyn i reoliadau COVID-19 lacio.

Tabl 6.1: Effaith COVID-19 ar ddeilliannau a gyflawnwyd

Dechrau a gorffen	N=	Ennill Cymhwyster neu Dystysgrif Berthnasol i Waith	Mynd i mewn i Gyflogaeth	Chwilio am Swydd (Economaid Anweithgar)	Cwblhau Profiad Gwaith neu Wirfoddoli	Mynd i mewn i Addysg neu Hyfforddiant (16-24)
Cyn-COVID	10,067	20%	10%	10%	10%	4%
Yn ystod COVID	2,087	16%	11%	9%	8%	4%
Ôl-COVID	826	12%	8%	6%	9%	3%

Ffynhonnell: Data'r Wybodaeth Fonitro, ym mis Mai 2022.

6.29 Fodd bynnag, mae effaith lawn COVID-19 ar ddeilliannau yn anodd ei phennu. Nid yw data'r Wybodaeth Fonitro sydd ar gael yn cynnwys y dyddiad y cyflawnwyd deilliannau. Felly, mae'r unig gymhariaeth gywir y gellir ei defnyddio rhwng y rheiny a ddechreuodd ac a orffennodd cyn i'r rheoliadau ddechrau, y rheiny a ddechreuodd ac a orffennodd yn ystod y rheoliadau, a'r rheiny a ddechreuodd ac a orffennodd ar ôl diwedd y rheoliadau. O ganlyniad, nid ydym yn gallu canfod effaith y pandemig ar y cyfranogwyr hynny yr oedd eu hamser ar y rhaglen yn croesi'r cyfnodau hyn.

Cyflawni dangosyddion Themâu Trawsbynciol

Mae effeithiau polisi'r gwasanaeth wedi bod yn ehangach o ran themâu trawsbynciol Cronfa Gymdeithasol Ewrop.

6.30 **Cyfle cyfartal a phrif ffrydio rhywedd:** Roedd lefel dda o amrywiaeth ymhlith y cyfranogwyr. Er enghraifft, roedd cyfranogiad pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig yn cynrychioli demograffeg Cymru yn gyffredinol. Dywedodd naw y cant o bobl fod ganddynt anabledd – ond gan fod hyn wedi'i seilio ar hunangofnodi, gallai'r cyfrannau gwirioneddol fod yn uwch. Gwnaeth y gwasanaeth yn dda o ran darparu

cyfleoedd i bobl â chyflyrau iechyd meddwl (roedd gan dros hanner y cyfranogwyr gyflwr o'r fath). Cafodd y gwasanaeth ei boblogi gan gyfran uwch o ddynion (64 y cant) o gymharu â menywod (36 y cant), felly roedd cyfyngiadau i brif ffrydio rhywedd yn y modd hwn. Yng nghyd-destun COVID-19, goresgynnodd y prosiectau unrhyw heriau o ran hygyrchedd trwy gynnig darpariaeth ar-lein, a helpodd ardaloedd gwledig i dderbyn gwasanaethau.

- 6.31 **Datblygu cynaliadwy:** Ni chyflenwodd y Gwasanaeth Di-waith hyfforddiant / cymorth mewn gofodau cymunedol (e.e. llyfrgelloedd, adeiladau elusennau hygyrch, ac ati) i'r graddau yr oedd yn gwneud cyn COVID-19, felly roedd yr effaith yn hyn o beth yn gymharol isel. Fodd bynnag, cyfrannodd sawl un o'r cyfleoedd gwirfoddoli at wella'r amgylchedd a datblygu cymunedol.
- 6.32 **Mynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol:** Diben y gwasanaeth yw symud pobl i gyflogaeth am dâl, ac wrth wneud hynny, rhoi sicrwydd ariannol i gyfranogwyr. Er na fodlonwyd targedau ar gyfer mynediad at gyflogaeth, roedd nifer dda o bobl economaidd anweithgar a phobl a oedd yn ddi-waith yn yr hirdymor o hyd wedi cael eu cynorthwyo i gael swydd. Bodlonwyd targedau ar gyfer pobl sy'n ennill cymwysterau yn berthnasol i waith, a allai wella bywoliaeth dros yr hirdymor. Mae'n nodedig iawn fod y Gwasanaeth Di-waith wedi helpu lleihau ynysigrwydd cymdeithasol, yng nghyd-destun COVID-19. Roedd goresgyn ynysigrwydd cymdeithasol yn aml yn cyd-fynd â synnwyr adnewyddedig o ddiben a hyder yn deillio o dreulio mwy o amser gyda phobl eraill o fewn y gymuned, cyfranogi mewn gweithgareddau cymdeithasol, grwpiau cymorth neu leoliadau gwirfoddoli.

Argymhellion

- 6.33 Mae'r adran hon, sydd wedi'i seilio ar y dadansoddiad blaenorol o ddata ansoddol a data'r Wybodaeth Fonitro, yn nodi argymhellion allweddol a allai lywio rhaglen yn y dyfodol sydd â nodau tebyg ac amcanion y Gwasanaeth Di-waith.

Recriwtio a chadw mentoriaid cymheiriaid

- 6.34 **Argymhelliad 1:** Mae cadw a datblygu mentoriaid cymheiriaid yn hanfodol ar gyfer sefydlogrwydd ac effeithiolrwydd y gwasanaeth. I gyflawni hyn, dylai cyllidwyr a darparwyr sicrhau bod cyflogau'n gystadleuol yn lleol, a darparu bywoliaeth foddhaol ar gyfer mentoriaid cymheiriaid, bod contractau cyflogaeth yn ddigonol o ran eu hyd i feithrin ymrwymiad a chymhelliant i'r rôl (er gwaethaf ansicrwydd ynghylch cyllid lle bo'n bosibl), a bod cynllun dilyniant a hyfforddiant clir.

Hyfforddiant a datblygiad ar gyfer mentoriaid cymheiriaid

- 6.35 **Argymhelliad 2:** Dylai hyfforddiant a datblygiad mentoriaid cymheiriaid fod yn systematig ac wedi'u ffurfioli, gan gynnwys opsiynau datblygiad proffesiynol parhaus fel cyrsiau achrededig ar Lefel 3 neu Lefel 4. Dylai cyrsiau ganolbwyntio'n ddefnyddiol ar gynorthwyo pobl sy'n profi problemau iechyd meddwl a delio â sefyllfaoedd o argyfwng. Er enghraifft, gallai hyfforddiant ar ddulliau sy'n ystyriol o drawma, cyfweld ysgogol, ac/neu Amgylcheddau sy'n Ystyriol o Gyflwr Seicolegol (PIE) fod yn ddefnyddiol yn y dyfodol. Hefyd, efallai bydd angen hyfforddiant ychwanegol ar fentoriaid cymheiriaid yn gysylltiedig â'r agweddau ar y rôl sy'n cael eu gyrru gan weithdrefnau a data, fel defnyddio offer mesur deilliannau meddal a chasglu tystiolaeth i ddangos deilliannau.

Cael profiad bywyd o broblemau iechyd meddwl a/neu gamddefnyddio sylweddau

- 6.36 **Argymhelliad 3:** Er bod gan lawer o fentoriaid cymheiriaid set sgiliau unigryw yn seiliedig ar eu profiad bywyd, a'u bod yn llawn cymhellant i helpu pobl, dylai darparwyr roi ystyriaeth lawnach i ddiffinio a chyfyngu eu rôl. Mae perygl bod mentoriaid cymheiriaid yn cael eu denu i ddarparu ymyriadau therapiwtig seicolegol nad ydynt efallai wedi cael eu hyfforddi ar eu cyfer, gan roi pwysau gormodol arnynt. Os oes disgwyl i fentoriaid cymheiriaid gynnig ymyriadau o'r fath, byddai angen hyfforddiant ychwanegol. Yr agweddau allweddol y caiff mentoriaid cymheiriaid eu gwerthfawrogi amdanynt yw darparu man cyswllt cyson, bod ar gael ar gyfer gwrando ac arweiniad empathig a heb farnu, cynnig cymorth ymarferol â thasgau, a chyfeirio at wasanaethau. Dylid diffinio rôl mentor cymheiriaid yn gliriach o gwmpas y rolau hyn.

Cynnig cymorth cyflogadwyedd amserol ac effeithiol

- 6.37 **Argymhelliad 4:** O ystyried anghenion lefel uchel llawer o gyfranogwyr, dylai fod gan ddarparwyr a mentoriaid cymheiriaid weithdrefnau a llwybrau ar waith i nodi pa bryd y dylai cyfranogwr symud o gymorth yn gysylltiedig â lles i dderbyn cymorth cyflogadwyedd/dechrau chwilio am swydd a mynd i mewn i gyflogaeth. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys defnyddio pecynnau cymorth i ganfod pa mor barod yw rhywun i ddechrau gwaith.
- 6.38 **Argymhelliad 5:** Efallai nad mentoriaid cymheiriaid sydd yn y sefyllfa orau i gynnig rhai agweddau ar gymorth cyflogadwyedd, er enghraifft sut i ysgrifennu CV a gwella perfformiad mewn cyfweiliadau am swyddi. Gall arbenigwyr cyflogaeth chwarae rhan nodedig a gwerthfawr, a gallant helpu dod o hyd i leoliadau gwirfoddoli hefyd. Dylai darparwyr sefydlu arbenigwyr cyflogaeth a sicrhau bod eu rôl gyda mentoriaid cymheiriaid wedi'i diffinio, a bod llwybrau clir rhwng y ddwy rôl.

Symud at fodolau cyflawni ar-lein / o bell

- 6.39 **Argymhelliad 6:** Daeth symud at fodolau cyflawni ar-lein / o bell â manteision sylweddol i gyfranogwyr a mentoriaid cymheiriaid o ran hygyrchedd a hyblygrwydd cymorth, er y bu heriau fel diffyg offer digidol a sgiliau digidol. Dylai darparwyr ddatblygu modelau cymorth hybrid sy'n gallu sicrhau bod hygyrchedd a hyblygrwydd cymorth yn cael eu hyrwyddo i'r eithaf. Gellir gwneud hyn trwy ddatblygu neu gaffael cyrsiau byr neu gyrsiau galwedigaethol a ddarperir ar-lein. Gall cyrsiau ar-lein a gyflwynir trwy amgylchedd dysgu rhithwir ddarparu cwmpas da ar gyfer datblygu cynnwys rhyngweithiol. Hefyd, dylai darparwyr ystyried plattfformau dysgu ar-lein teilwredig, fideos, fforymau rhyngweithiol, a gofod ar gyfer ymarfer myfyriol.

Cynnig cyrsiau byr a lleoliadau gwirfoddoli

- 6.40 **Argymhelliad 7:** Mae cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddilyn cyrsiau byr (sydd â gogwydd galwedigaethol neu ddatblygiad personol) ac mae mentoriaid cymheiriaid hefyd yn awgrymu bod hyn yn opsiwn ac y dylent gael mynediad ato ar gyfer eu cyfranogwyr gan ei fod yn magu hyder ac yn cynyddu dilyniant cyflogaeth. Dylai darparwyr roi blaenoriaeth i gyrsiau byr fel mecanwaith ymgysylltu ac fel cam at waith, tra dylai cyllidwyr gydnabod y canlyniad hwn mewn strwythurau contractiol/tâl.
- 6.41 **Argymhelliad 8:** Dylai darparwyr ddatblygu rolau a ffrydiau gwaith yn llawnach i ddod o hyd i gyfleoedd gwirfoddoli a rhoi cyfranogwyr ynddynt i fagu hyder a datblygu sgiliau a phrofiad. Gallai hyn olygu cyflogi cydlynedd gwirfoddoli pwrpasol i froceru lleoliadau gwirfoddoli a chynorthwyo cyfranogwyr tra'u bod ar leoliad. Mae'n bwysig fod gan ddarparwyr sy'n derbyn gwirfoddolwyr ymwybyddiaeth dda o anghenion penodol y cyfranogwyr a'u bod yn addasu ac yn ymateb yn unol â hynny. Hefyd, dylai darparwyr gael cymorth i ddatblygu lleoliad strwythuredig lle caiff amcanion dysgu neu amcanion sgiliau meddal eu nodi ar gyfer y cyfranogwr hwnnw.

Mynediad at gymorth allanol

- 6.42 **Argymhelliad 9:** Mae mynediad hawdd at wasanaethau allanol, fel cwnsela, yn bwysig iawn ar gyfer darparu gwasanaeth cydlynus a chynhwysfawr ar gyfer cyfranogwyr. Dylai cyllidwyr a darparwyr sicrhau bod gan fentoriaid cymheiriaid ymwybyddiaeth a dealltwriaeth lawn o wasanaethau lleol a'r gweithdrefnau ar gyfer cyfeirio a/neu atgyfeirio. Gallai hyn fynnu cydlynu gwasanaethau lleol yn systematig hefyd er mwyn cysylltu â gwasanaeth mentora cymheiriaid.

Argymhellion blaenorol

- 6.43 Nododd yr adroddiad gwerthuso blaenorol yr argymhellion canlynol yn canolbwyntio ar newidiadau i'r model cyflawni i helpu'r darparwyr i gyflawni targedau. Un o amcanion yr ail werthusiad hwn oedd ystyried i ba raddau y gweithredwyd yn unol â'r argymhellion. Rydym wedi darparu myfyrdod ynglŷn â phob un o'r argymhellion isod:
- 6.44 **Dylai darparwyr archwilio ffyrdd o gadw mentoriaid cymheiriaid profiadol i atal trosiant a tharfu ar wasanaethau.** Mae trosiant uchel mentoriaid cymheiriaid wedi parhau i fod yn her, a phrin yw'r dystiolaeth a geir o ddarparwyr yn rhoi mesurau systematig ar waith i gadw mentoriaid cymheiriaid. Un datblygiad addawol yw'r buddsoddiad mewn gwella sgiliau mentoriaid cymheiriaid trwy gyrsiau L3 a L4. Mae COVID-19 a mesurau amddiffynnol yn gysylltiedig â'r pandemig yn debygol o fod wedi effeithio ar y gallu i recriwtio a chadw mentoriaid cymheiriaid gan eu bod yn gweithio o gartref ac yn profi pwysau ychwanegol.
- 6.45 **Dylai darparwyr fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gyfranogwyr gael profiad gwaith am dâl trwy gynnal digwyddiadau ymgysylltu â chyflogwyr (a gefnogir gan Lywodraeth Cymru), gan ystyried yr ymagwedd treial gwaith, ac annog cyflogwyr rhagweithiol i fod yn 'hyrwyddwyr'.** Nid yw lleoliadau gwaith wedi bod yn nodwedd arwyddocaol o'r Gwasanaeth Di-waith dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae ymgysylltu â chyflogwyr wedi bod yn gyfyngedig iawn o ganlyniad i COVID-19 a mesurau yn gysylltiedig â'r pandemig. Ar yr un pryd, nid yw'n glir fod galw mawr am leoliadau gwaith gan gyfranogwyr, ac yn hytrach, efallai bod cyfleoedd gwirfoddoli mwy hyblyg a pherthnasol yn fwy priodol.
- 6.46 **Dylid ystyried ailddiffinio'r metrigau presennol, yn enwedig ar gyfer lleoliadau gwaith a deilliannau cyflogaeth gynaledig.** Nid oes arwydd fod y metrigau wedi cael eu hailffurfweddu. Roedd y deilliannau ar gyfer cyflogaeth gynaledig yn isel iawn, er y cydnabyddir y gallai hyn fod yn rhannol o ganlyniad i heriau wrth sicrhau tystiolaeth o gynhaliaeth.
- 6.47 **Dylai darparwyr sicrhau bod adnoddau digonol i gasglu a chofnodi data perfformiad WEFO, yn enwedig data dilynol chwe mis. Gallai darparwyr ystyried ffyrdd mwy arloesol o ddangos tystiolaeth o lwybrau cyfranogwyr ar ôl gadael. Hefyd, dylai darparwyr barhau i gofnodi deilliannau meddal, a dylai Llywodraeth Cymru annog mabwysiadu system gyffredin ar gyfer cymharu data meddal.** Prin yw'r dystiolaeth fod hyn wedi digwydd, ac mae darparwyr wedi parhau i gael eu herio'n sylweddol gan gasglu data dilynol chwe mis.

Atodiad A

Nodweddion Cyfranogwyr:

	Cyfanswm	Canran
Statws Cyflogaeth adeg Ymyrraeth (16-24)		
16-24 (ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant)	4,335	
Statws Cyflogaeth adeg Ymyrraeth (Dros 25)		
Economaidd anweithgar	7,885	57%
Yn ddi-waith yn yr hirdymor	5,880	43%
Cyflwr		
Camddefnyddio Sylweddau	1,735	10%
Iechyd Meddwl	9,825	54%
Y ddau	6,540	36%
Rhywedd		
Gwryw	11,540	64%
Benyw	6,558	36%
Arall		0%
O Gefndir Pobl Ddu neu Leiafrifoedd Ethnig		
Ie	571	3%
Na	17,521	97%
Gwrthodwyd Gwybodaeth	8	0%
Lefel Cymhwyster Presennol		
Islaw Lefel 1 y FfCChC	2,965	16%
Lefel 1 y FfCChC	561	3%
Lefel 2 y FfCChC	4,268	24%
Lefel 3 y FfCChC	2,096	12%
Lefel 4 y FfCChC	81	0%
Lefel 5 y FfCChC	1,008	6%
Lefel 6 y FfCChC	99	1%
Lefel 7 y FfCChC	209	1%
Lefel 8 y FfCChC	5	0%
Dim	6,807	38%
Amgylchiadau		
Aelwyd Oedolyn Sengl	6,898	38%
Aelwyd Ddi-waith	11,787	65%
Plant Dibynnol	2,436	13%
Digartref neu wedi'u Heffeithio gan Eithrio o Gael Tai	1,007	6%
Statws Mudol - Ie (UE)	103	1%
Statws Mudol - Ie (Ddim yr UE)	52	0%
Cyflwr Iechyd sy'n Cyfyngu ar Allu Pobl i Weithio	4,419	25%

Anabledd	1,688	9%
Prif Ofalwr – Gofal Plant (o dan 18 oed)	2,155	12%
Prif Ofalwr – Oedolyn Anabl (18 oed ac yn hŷn)	184	1%
Prif Ofalwr - Oedrannus (65 ac yn hŷn)	286	2%
Y Gymraeg		
Yn deall Cymraeg	1,260	7%
Yn siarad Cymraeg	1,093	6%
Yn darllen Cymraeg	974	5%
Yn ysgrifennu Cymraeg	910	5%